ANRHEG I'R CYMRO.

YN CYNNWYS

I. Egwyddor Gymraeg &c.
II. Ffigurau Rhifyddiaeth.
III. Catechiſm yr Eglwys.
IV. Taflen o Lyfrau'r Ysgrythyr lan.
V. Ychydig Gymmorth i Weddio,
VI. Ac i dd'weud Gras-bwyd.
VII. Gair ynghylch yr *Addoliant* Eglwysig,
VIII. Ac ynghylch Yscolion cymraeg.
IX. Rheolau er iawn ddarllenniad y

BIBL.

Addaw *mawr*, a Rhôdd *fechan*.

Argraphwyd yn NULUN gan A. Reilly
yn y Flwyddyn MDCCXLIX.

44.
4. 2.
187.

I. YR EGWYDDOR GYMRAEG &c.

1749.

A. B. C. Ch. D. Dd. E. F. Ff. G. H. I. L. Ll. M. N. Ng. O. P. Ph. R. S. T. Th. U. W. Y.

a. b. c. ch. d. dd. e. f. ff. g. h. i. l. ll. m. n. ng. o. p. ph. r. ſ. s. t. th. u. w. y.

A. B. C. Ch. D. Dd. E. F. Ff. G. H. I. L. Ll. M. N. Ng. O. P. Ph. R. S. T. Th. U. W. Y.

a. b. c. ch. d. dd. e. f. ff. g. h. i. l. ll. m. n. ng. o. p. ph. r. ſ. s. t. th. u. w. y.

𝔄. 𝔅. 𝔠. 𝔎. 𝔇. 𝔇𝔡. 𝔈. 𝔉. 𝔉𝔣. 𝔊. 𝔥. 𝔍. 𝔏. 𝔏𝔩. 𝔐. 𝔑. 𝔑𝔤. 𝔒. 𝔓. 𝔓𝔥. 𝔎. 𝔖. 𝔗. 𝔗𝔥. 𝔘. 𝔚. 𝔜.

𝔞. 𝔟. 𝔠. 𝔠𝔥. 𝔡. 𝔡𝔡. 𝔢. 𝔣. 𝔣𝔣. 𝔤. 𝔥. 𝔦. 𝔩. 𝔩𝔩. 𝔪. 𝔫. 𝔫𝔤. 𝔬. 𝔭. 𝔭𝔥. 𝔯. 𝔰. 𝔰. 𝔱. 𝔱𝔥. 𝔲. 𝔴. 𝔶.

N. B. Nid yw k, q, x, z, ond *gormeſiaid* a dieithriaid i'r Jaith *Gymraeg* : 'Fe a waſanaetha *c* yn lle *k* ; *cw* yn lle *q* ; *cſ* yn lle *x* ; ac *ſ* yn lle *z* : Gan hynny afraid a thrwſcl yw arferu'r un o'r pedair lythyren uchod yn yr hên *Frutaniaith*, ſef mewn Geiriau *Cymraeg*.

Y mae *ſaith ar hugain* math o Lythyrennau yn yr Egwyddor *Gymraeg* : *Saith* o honynt a elwir y *Llafariaid* neu'r *Bogeiliaid*, ſef a, e, i, o, u, w, y ;— a'r lleill i gyd a elwir *Cydſeiniaid*, ſef b, c, ch, d, dd, f, ff, g, h, l, ll, m, n, ng, p, ph, r, ſ, t, th. —Un o'r Bogeiliaid ac un o'r Cydſeiniaid hyn ynghyd, a wnânt *Sillaf* byrr, megis y canlyn,

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	la le li lo lu lw ly
all ell ill oll ull wll yll	lla lle lli llo llu llw lly
am em im om um wm ym	ma me mi mo mu mw my
an en in on un wn yn	na ne ni no nu nw ny
ap ep ip op up wp yp	pa pe pi po pu pw py
aph eph iph oph uph wph yph	pha phe phi pho phu phw phy
ar er ir or ur wr yr	ra re ri ro ru rw ry
as es is os us ws ys	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
at et it ot ut wt yt	ta te ti to tu tw ty
ath eth ith oth uth wth yth	tha the thi tho thu thw thy

Geiriau o un Sillaf.

(N. B. Mynnwch weled y Plentyn yn hyddyſg ar *un* wers, cyn gadael iddo gynnyg ar un arall.)

Ac, am, arch, bai, bawd, bêdd, câd, cael, câr, cam, câs, chwant, chwech, chwith, chwyn, da, dâd, daeth, dur, ein, eirth, eithr, faith, fall, fôd, fwyn, fyw, ffa, ffordd, ffrwyth, gan, Grâs, gwr, gŷd, hâf, hawl, hardd, imp, îs, iwrch, law, liw, lwyr, lwybr, mâb, môdd, mwyn, nai, naid, naill, naw, naws, oed, oer, ofn, pair, parth, Pâſc, rhâd, rhif, rhôdd, ſaer, ſaeth, ſarph, tâd, taer, têg, tês, tlawd, twr, twrr, un, ûs, uwch, wy, wybr, y, ŷch, ŷd, yw.

Geiriau o ddau Sillaf.

Gwybydd mai *Sillaf* yw cymmaint o Lythyrennau ac a wnelo *un* ſwn (neu a ſwnir ar *unwaith*) heb newid dy Lais,—fel y gweli fod yn y Gair neſaf *ddau* Sillaf, ſef A-ber, &c.

A-ber, aber; ac-cen, accen; ach-os, achos; bach-og, bachog; ber-wi, berwi; ca-lon, calon; cu-ro, curo; de-wis, dewis; eſ-mŵyth, eſmŵyth; ffyr-nig, ffyrnig; gwar-ed,

gwar-ed, gwared; hwyl-us, hwylus; iſ-el, iſel; llaw-er, llawer; mŵyn-der, mŵynder; nef-ol, nefol; ne-wid, newid; oer-fel, oerfel; per-aidd, peraidd; par-hâus, perhâus; ty-lwyth, tylwyth; un-deb, undeb; ŵy-lo, ŵylo; y-no, yno.

Geiriau o dri Sillaf.

A-ber-oedd, Aberoedd: an-rhy-dedd, anrhydedd: bwr-ia-du, bwriadu: car-ed-ig, caredig: dyſ-ged-ig, dyſgedig: en-wed-ig, enwedig: ffyn-nad-wy, ffynnadwy: graſ-uſ-ol, graſuſol: gwar-ed-ŷdd, gwaredŷdd: hy-nod-ol, hynodol: Jach-awd wr, Jachawdwr: llaw-er-oedd, llaweroedd: ma-ddeu-ant, maddeuant: ni-weid-iol, niweidiol: o-leu-deg, oleudeg: par-od-ol, parodol: pech-od-au, pechodau: rhin-wedd-ol, rhinweddol: ſyn-hwyr-ol, ſynhwyrol: tru-gar-edd, trugaredd: urdd-ed-ig, urddedig: wy-neb-ol, wynebol: Yſ-gyth-ru, Yſgythru.

Geiriau o bedwar Sillaf.

Add-e-wid-ion, Addewidion. An-wel-ed-ig, anweledig: bych-an-ig-in, bychanigin: cyn-nyſ-gaedd-ol, cynnyſgaedol: derch-af-ed-ig, derchafedig: eſ-ceu-luſ-dra, eſceuluſdra: ffyn-nid-wydd-en, ffynnidwydden. Go-gon-edd-us, Gogoneddus: Gor-chym-myn-ion, Gorchymmynion: gor-lle-win-ol, gorllewinol: haedd-ed-ig-aeth, haeddedigaeth: iech-yd-wr-iaeth, iechydwriaeth: llu-oſ-owg-rwydd, lluoſowgrwydd: per-chen-no-gi, perchennogi: pri-od-ol-deb, priodoldeb: rha-gor-freint-iau, rhagorfreintiau: ſy-wed-ydd-iaeth, ſywedyddiaeth: tra-gy-wydd-ol, tragywyddol: uch-en-eid-io, ucheneidio: wt-treſ-wr-iaeth, wttreſwriaeth: ym-ddi-ffyn-fa, ymddiffynfa.

Geiriau o 5, 6 a 7 Sillaf.

Af-ryw-iog-aeth-au, Afrywiogaethau. Am-ry-fu-ſedd-ol-deb, amryfuſeddoldeb. An-e-wyll-yſ-gar-wch,

anewyllyſgarwch. Ang-hy-fod-ed-yn, anghyfodedyn. Bu-ddug-ol-iaeth-us, buddugoliaethus. Coll-e-dig-aeth-au, colledigaethau. Er-lyn-ed-ig-aeth-au, erlynedigaethau. Er-fyn-ed-ig-aeth-au, erfynedigaethau. Eth-ol-ed-ig-ion, Etholedigion. Holl-all-u-owg-rwydd, hollalluowgrwydd. Tra-gy-wydd-ol-deb, tragywyddoldeb. Ym-gy-foe-tho-gi, ymgyfoethogi. Ym-ry-fu-ſe-ddu, ymryfuſeddu. Yſ-cy-far-nog-od, yſcyfarnogod. Yſ-cri-fen-ned-ig-aeth-au, yſcrifennedigaethau.

N. B. Yr anhawſdra *mwyaf* yn dyſgu darllain *Cymraeg*, a ſydd o achos y *ddau* ſwn a fedd y Lythyren, *Y*: Canys yn *niwedd pob* Gair lle y byddo, ac ymhob gair o *un* Sillaf (oddigerth *yr*, *ys*, *yn*, *fy*, *dy*, *myn*, *ym*,—a phan ſaif ar ei phen ei *hun*) y mae hi i'w ſwnio fel y llythyren, *u*; ac yn gofyn bod fforch-gappen uwch ei phen.

Nid afreidiol i'r Darllenwyr lleſcion cyffredinol edrych yn fanwl dros y Geiriau uchod, a dal *ſulw* arnynt; er dyſcu y modd yr ydys i ſpel-lio Gair, neu ei rannu yn amryw Sillafau; — *heb* yr hyn ni cheir ganddynt byth ddarllain yn drefnus ac yn gywir er *Adeiladaeth*.

Deliwch ſulw fod y Fforch-gappen a welir ar gyrſiau wuch ben y *Bogeiliaid*, yn y modd ymma, — â, ê, î, &c, — yn arwyddoccâu eu bod i'w heſtyn, neu i'w ſwnio yn hirllaes. — A bai nid bychan yw, na arferir y Fforch-gappen chwarter mor aml ac y dylid mewn Llyfrau Cymrâeg, yn enwedig uwchben yr *w* a'r *y*, lle y mae ei heiſieu yn aml iawm: ond nid oes mor peth i'w gael gan yr Argraphyddion.

Y mae chwe' math ar *Attaliadau* mewn Llyfr neu Yſcrifen; — y rhai, oni ddeil Dyn *ſulw* arnynt ac attal ei anadl yn attebol i'r unrhyw, nis derllyn byth yn gymmwys, fel y gallo arall ei deall Ef a ſynnied y Lfyfr.

Hwy

Hwy a nodir ac a henwir yn y modd *yma*

, —— Rhagwahan-nod; ſef y gwannaf o'r cwbl.
; —— Hanner-dryll Ymadrodd.
: —— Y Ddwy-big.
. —— Diwedd-nod.
? —— Nôd o Ymofynniad.
! —— Nôd Rhyfeddu.—

Da gan ymbell un yſgatfydd gael egluro y nodau canlynol.— i, e. neu *viz*, neu h. y. hynny ydyw. — &c, ac felly ymlaen.— St. Sanct.— N. B, Dal ſulw'n graff.— E. g, I egluro'r peth drwy *Eſampl.*—Q. d, megis pe dywedaſei.— A. D, Oedran, neu ym mlwydd, yr *Arglwydd.* —Y mae'r ymſang neu Gromfachau, ſef ( ) neu [ ] yn arwyddoccâu y gellir gadael *allan* y Geiriau a ſafo rhyngddynt, heb ddim niwed i Reſwm neu ſynnied yr Ymadrodd.

II. Y *Ffigurau* Rhifyddiaeth.

1	Un	I	19	Pedwar ar bymtheg	XIX
2	Dau	II	20	Ugain	XX
3	Tri	III	21	Un ar Ugain. &c.	XXI
4	Pedwar	IV	30	Deg ar Ugain	XXX
5	Pump	V	31	Un ar ddeg ar Ugain. &c.	XXXI
6	Chwech	VI			
7	Saith	VII	40	Deugain	XL
8	Wyth	VIII	41	Un a deugain. &c.	XLI
9	Naw	IX	50	Deg a deugain	L
10	Deg	X	60	Tri Ugain	LX
11	Un ar ddeg	XI	70	Deg a thri Ugain	LXX
12	Deuddeg	XII	80	Pedwar Ugain	LXXX
13	Tri ar ddeg	XIII	90	Deg a phedwar Ugain	XC
14	Pedwar ar ddeg	XIV			
15	Pymtheg	XV	100	Cant	C
16	Un ar bymtheg	XVI	200	Dau Gant	CC
17	Dau ar bymtheg	XVII			300
18	Deunaw	XVIII			

300	Tri Chant — CCC	800	Wyth Cant DCCC
400	Pedwar Cant — CD	900	Naw Cant — CM
500	Pum Cant — — D	1000	Mil ——— M
600	Chwe' chant — DC	1749,	MDCCXLIX.
700	Saith Cant — DCC		

III. Y CATECHISM; Sef yw hynny, Athrawiaeth i'w dyſgu gan *bob* Plentyn, *cyn* ei ddwyn i'w gonffirmio gan yr *Eſgob*.

Cweſtiwn.

BETH yw dy Enw Di?

Atteb. N. neu *M.*

Cweſt. Pwy a roddes yr Enw hwnnw *arnat* ti?

Atteb. Fy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd wrth fy *medyddio*; pan i'm gwnaeth-pwyd yn Aelod i GRIST,—yn Blentyn i DDUW,—ac yn *Etifedd* teyrnas *Nef.*

Cw. Pa *beth* a wnaeth dy Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd yr amſer hwnnw *droſot* ti?

Att. Hwy a addawſant ac a addunafant *dri* pheth yn fy enw: Yn gyntaf, *ymwrthod* o honof â *Diafol* ac a'i *holl* weithredoedd, —a rhodres a gorwagedd y *Byd* anwir hwn, —a *holl* bechadurus chwantau 'r *Cnawd*.—Yn ail, bod i mi *gredu* holl byngciau *Ffydd* GRIST.—Ac yn drydydd, *cadw* o honof wynfydedig Ewyllys DUW a'i Orchymmynnion, a rhodio yn yr unrhyw *holl* ddyddiau fy mywyd.

Cw. Onid wyt ti yn tybied dy fod yn *rhwymedig* i *gredu* ac i *wneuthur* megis yr *addawſant* hwy droſot ti?

Att. Ydwyf yn *wîr*; a thrwy nerth DUW felly y *gwnâf.* Ac yr wyfi yn mawr *ddiolch* i'n Tâd nefol, am iddo fy ngalw i gyfryw 'ſtât *Jechydwriaeth*, trwy

JESU

Jesu Grist ein *Jachawdwr*.---Ac mi a attolygaf i Dduw roddi i mi ei *Râs*, môdd y gallwyf *aros* yn yr unrhyw *holl* ddyddiau fy einioes.

Cw. Adrodd i mi Fannau dy *Ffydd*.

Atteb.

CREDAF yn Nuw Dâd Hollgyfoethog; Creawdwr nef a daear:---Ac yn Jesu Grist ei *un Mâb* Ef, ein *Harglwydd* ni:—Yr hwn a gaed trwy yr Yspryd Glan; a aned o *Fair* Forwyn:---A ddioddefodd dan Bontius Pilatus; a groeſhoeliwyd; a fu farw, ac a gladdwyd; a ddiſgynnodd i uffern.---Y trydydd dydd y cyfododd o feirw;---A eſgynnodd i'r Nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheulaw Dduw Dâd Hollgyfoethog:--- Oddi yno y daw i *farnu* byw a meirw.--- Credaf yn yr Yspryd Glan,-- Yr *Eglwys* lân Gatholic; Cymmun y Sainct,--Maddeuant pechodau,--- Adgyfodiad y cnawd,---a'r Bywyd tragywyddol. *Amen*.

Cw. Pa *beth* yr wyt ti yn ei ddyſgu yn *bennaf* yn y pyngcjau hyn o'th *Ffydd*?

Att. Yn gyntaf, yr wyf yn dyſgu credu yn Nuw Dad, yr hwn a'm *gwnaeth* i, a'r holl fyd.

Yn ail, yr ydwyf yn dyſgu credu yn Nuw Fab, yr hwn a'm *prynnodd* i, a phob rhyw ddŷn.

Yn drydydd, yr wyf yn dyſgu credu yn Nuw Yspryd Glan, yr hwn ſydd i'm *ſanctteiddio* i, a holl etholedig bobl Dduw.

Cw. Ti a ddywedaiſt, ddarfod i'th Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd *addaw* droſot ti, fod i ti gadw *Gorchymmynnion* Duw: Dywed dithau i mi, pa *nifer* ſydd o honynt?

Att. Deg.

Cw. Pa rai ydynt?

Atteb.

Y Rhai hynny a lefarodd Duw yn yr ūngeinfed bennod o *Exodus*; gan ddywedyd; *Myſi* yw'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddûg di ymmaith o dir yr *Aipht*, o dŷ y *caethiwed*.

I. *Na* fydded i ti dduwjau eraill onid Myfi.

II. *Na* wnâ it' dy hun *ddelw* gerfiedig, na llun dim ar y ſydd yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaear iſod, nac yn y dwfr tan y ddaear. *Na* oſtwng iddynt, ac *na* addola hwynt: oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw wyf Dduw *eiddigus*, yn ymweled â *pechodau'r* tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm *caſânt*, ; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm *carant*, ac a gadwant fy Ngorchymmynnion.

III. *Na* chymmer Enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer: canys *nid* gwirjon gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei Enw Ef yn *ofer*.

IV. Cofia gadw yn *ſanctaidd* y dydd Sabboth. Chwe' diwrnod y *gweithi*, ac y gwnei dy holl waith; Eithr y *ſeithfed* dydd yw *Sabboth* yr Arglwydd dy Dduw: Ar y dydd *hwnnw* na wna ddim gwaith,--tydi, na'th fâb, na'th ferch, na'th wâs, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dyn *dieithr* a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn *chwe'* diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nef a daear, y môr, a'r hyn oll ſydd ynddynt, ac a *orphwyſodd* y Seithfed dydd. O herwydd pa ham y *bendithiodd* yr Arglwydd y ſeithfed dydd, ac a'i *ſancteiddiodd* ef.

V. *Anrhydedda* dy Dâd a'th Fam; ſel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

VI. *Na* lâdd.

VII. *Na* wnâ odineb.

VIII. *Na* ladrattâ.

IX. *Na* ddwg *gam* dyſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

X. *Na* chwennych dŷ dy gymmydog; na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wâs, na'i forwyn, na'i ŷch, nai aſſyn, na *dim* a'r ſydd eiddo.

Cw. Beth yr wyt ti yn ei ddyſgu yn *bennaf* wrth y Gorchymmynion hyn?

Att. Yr ydwyf yn dyſgu *dau* beth: fy nyled tuag at Dduw, a'm dyled tuag at fy *nghymmydog*.

Cw.

Cw. Pa beth yw dy ddyled tu ag at DDUW?

Att. Fy nyled tu ag at DDUW yw, *credu* ynddo, ei *ofni*, a'i *garu* â'm *holl* galon, a'm holl feddwl, a'm holl Enaid, ac â'm holl nerth;---ei *addoli* ef,---*diolch* iddo,---rhoddi fy holl *ymddiried* ynddo,---*galw* arno,---anrhydeddu ei ſanctaidd *Enw* ef,---a'i *Air*,---a'i waſanaethu yn *gywir holl* ddyddiau fy mywyd.

Cw. Pa beth yw dy ddyled tu ag at dy *Gymmydog*?

Att. Fy nyled tu ag at fy nghymmydog yw, ei *garu* fel fi fy hun,--- a gwneuthur i *bob* dŷn megis y chwennychwn iddo wneuthur i minneu:---Caru o honof, anrhydeddu, a chymmorth, fy Nhâd a'm Mam:--Anrhydeddu, ac ufuddhâu i'r *Brenin* a'i Swyddogjon:--Ymddaroſtwng i'm *holl* Lywiawdwyr, Dyſgawdwyr, *Bugeiljaid yſprydol*, ac Athrawön:---Ymddwyn o honof yn *oſtyngedig*, gan berchi pawb o'm gwell:--- Na wnelwyf niwaid i *neb* ar air, na gweithred:---Bob yn *gywir* ac yn unjon ym *mhob* peth a wnelwyf:---Na bo na *châs*, na digaſedd yn fy nghâlon i *neb*:--- Cadw o honof fy nwylaw rhag chwilenna a *lladratta*;---Cadw fy *nhafod* rhag dywedyd celwydd, cabl-eiriau, na drwg-abſen:---Cadw fy *nghorph* mewn cymhedroldeb, ſobrwydd, a diweirdeb:--*Na* chybyddwyf ac na ddeiſyfwyf ddâ na golud *neb* arall;—eithr dyſgu a *llafurio* yn gywir, i geiſio ennill fy mywyd, ac i wneuthur a *ddylwyf*, ym mha ryw fuchedd *bynnag* y rhyngo bôdd i DDUW fy ngalw:

Cw. Fy annwyl Blentyn, gwybydd hyn ymma, nad wyt ti *abl* i wneuthur y pethau hyn o honot dy *hun*, nac i rodio yng orchymmynion DUW, nac i'w waſanaethu ef, heb ei yſpyſol *Râs* ef; yr hwn ſydd raid i ti ddyſgu yn waſtad ymorawl am dano trwy ddyfal *weddi*.—Gan hynny moes i mi glywed a fedri di ddywedyd *Gweddi* yr ARGLWYDD.

Atteb.

EIN *Tâd*, yr hwn wyt yn y *nefoedd*; *Sancteiddier* dy Enw. Deued dy *Deyrnas*. Bid dy ewyllys ar y *ddaear*, *megis* y mae yn y *nefoedd*. Dyro i ni

heddyw

heddyw ein bara beunyddjol. A *maddeu* i ni ein dyledjon, *fel* y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac *nac* arwain ni i *brofedigaeth*; Eithr *gwared* ni rhag *drwg*. Canys eiddot *ti* yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant yn oes Oesoedd. *Amen.*

Cw. Pa *beth* yr wyt ti yn ei erchi ar DDUW yn y Weddi *hon*?

Att. Yr ydwyf yn erchi ar fy Arglwydd DDUW ein *Tâd nefol*, yr hwn yw Rhoddwr *pob* dajoni, ddanfon ei *râd* arnaf, ac ar yr *holl* bobl; fel y gallom ei anrhydeddu ef, a'i wasanaethu, ac ufuddhâu iddo megis y *dylem*. Ac yr wyf yn gweddio ar DDUW, ddanfon i ni *bob* peth angenrheidjol, yn gystal i'n heneidjau, ac i'n cyrph; A bod yn *drugarog* wrthym, a *maddeu* i ni ein pechodau: A rhyngu bodd iddo ein *cadw* a'n hamddiffyn ym *mhob* perygl, ysbrydol a chorphorol: A chadw o hono nyni rhag *pob pechod* ac anwiredd, a rhag ein *gelyn* ysprydol, a rhag angeu *tragywyddol*. A hyn yr ydwyf yn ei *obeithio* y *gwnâ* efe o'i drugaredd a'i ddajoni, trwy ein Harglwydd JESU GRIST: ac am hynny yr wyf yn dywedyd *Amen*, Poed gwîr.

Cwestiwn.

PA sawl *Sacrament* a ordeiniodd GRIST yn ei *Eglwys*?

Att. Dau yn unig, megis yn gyffredinol yn angenrhaid i *jechydwrjaeth*;—sef, *Bedydd*, a *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa beth yr wyt ti yn ei ddeall wrth y gair hwn *Sacrament*?

Att. Yr wyfi yn deall *arwydd* gweledig oddiallan, o *râs* ysprydol oddifewn, a roddir i *ni*;—yr hwn a ordeiniodd CRIST ei *hun*, megis *modd* ini dderbyn y grâs hwnnw trwyddo,—ac i fod yn wystl i'n *sicrhâu* ni o'r grâs hwnnw.

Cw. Pa sawl *rhan* y sydd mewn Sacrament?

Att. Dwy; yr arwydd gweledig oddiallan, a'r grâs ysbrydol *oddifewn.*

Cw. Pa *beth* yw'r arwydd gweledig oddiallan, neu'r ffurf yn y *Bedydd*?

Att.

Att. Dwfr:—yn yr hwn y *bedyddir* un, Yn Enw'r TAD, a'r MAB, a'r YSPRYD GLAN.

Cw. Pa beth yw'r *grâs* ysprydol oddifewn?

Att. Marwolaeth i *bechod*, a genedigaeth newydd i *gyfiawnder*:—canys, gan ein bod ni wrth naturjaeth wedi ein geni mewn *pechod*, ac yn blant *digofaint*;—trwy *Febydd* y gwneir ni yn blant *grâs*.

Cw. Pa beth a *ddiſgwylir* gan y rhai a fedyddier?

Att. Edifeirwch, trwy'r hon y maent yn *ymwrthod* â phechod;—a *Ffydd*, trwy'r hon y maent yn ddiyſcog yn *credu* addewïdjon DUW, y rhai a *wneir* iddynt yn y Sacrament hwnnw.

Cw. Pa *ham* wrth hynny y bedyddir plant *bychain*, pryd na's gallant o herwydd eu jeuengctid, *gyflawni* y pethau hyn?

Att. Oblegid eu bod yn *addaw* pob un o'r ddau trwy eu meichiau: yr hwn addewid pan ddelont i *oedran*, y maent hwy eu *hunain* yn rhwym i'w gyflawni.

Cw. Pa *ham* yr ordeiniwyd Sacrament *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Er mwyn *tragywyddol* gôf am *aberth* dioddefaint *marwlaeth* CRIST, — a'r *lleſhâad* yr ydym *ni* yn ei dderbyn oddiwrtho.

Cw. Pa beth yw y rhan oddiallan, neu'r *arwydd*, yn Swpper yr Arglwydd?

Att. Bara a gwîn, y rhai a orchymmynnodd yr ARGLWYDD eu derbyn.

Cw. Pa beth yw y rhan oddifewn, neu'r peth a *arwyddocceir*?

Att. Corph a *gwaed* CRIST; y rhai y mae'r *ffyddlonjaid* yn wîr ac yn ddiau yn eu cymmeryd ac yn eu *derbyn* yn *Swpper* yr Arglwydd.

Cw. Pa leſhâad yr ydym *ni* yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn?

Att. Cael cryfhâu a diddanu ein *heneidjau* trwy *gorph* a *gwaed* CRIST,—megis y mae'n *cyrph* yn cael trwy'r *bara* a'r *gwîn*.

Cw.

Cw. Pa beth ſy raid i'r rhai a ddel i Swpper yr Arglwydd ei *wneuthur* ?

Att. Eu *holi* eu hunain,— a ydynt hwy yn *wîr edifeiriol* am eu pechodau a aeth *heibio*,--ac yn *ſicer-amcanu* dilyn buchedd *newydd*;— a oes ganddynt *ffydd fywiol* yn nhrugaredd DDUW trwy GRIST,—gyd â *diolchus gôf* am ei *angeu* ef;—ac a ydynt hwy mewn *cariad perffaith* â *phob* Dyn.

¶ *Bid i Gurat* pob *plwyf yn ddieſceulus ar y Suliau a gwyliau ar ôl yr ail llith o'r Goſper, ddyſcu ar oſteg yn yr* Eglwys, *a holi cynniſer o blant ei Blwyf, ac a ddanfonwyd atto, megis y tybio efe fod yn gymheſur yn rhyw barth, o'r Catechiſm hwn.*

¶ *A bid i* bôb *tâd a mam, ap hob perchen tylwyth beri i'w plant, i'w gwaſanaeth-ddynion, ac i'w Prentiſiaid, (y rhai ni ddyſcaſant eu Catechiſm) ddyfod i'r* Eglwys, *ar yr amſer goſodedig, a gwrando yn ufudd, a bôd wrth lywodraeth y Curat, hyd oni ddarffo iddynt ddyſcu* pob *peth ac ſydd yma wedi ei oſod i'w ddyſcu ganddynt.*

¶ *Er cynted ac y delo Plant i oedran cymhedrol, ac y medront ddywedyd yn iaith eu mam, fannau yr ffydd, gweddi yr Arglwydd, y dêg Gorchymmyn, a hefyd medru o honynt atteb i ymofynion eraill o'r* Catechiſm *byrr yma : Yna y dygir hwy at yr* Eſgob : *Ac i bôb un o honynt y bydd Tâdbedydd neu Fam-fedydd megis yn Dyſt o'i* Gonffirmaſiwn.

O'r Ychydig Blant a ſydd mor ddedwydd a chael *Rhieni* graſol ac Eraill i ddyſcu iddynt ragorol *Gatechiſm* yr Eglwys, ni wela' i fod fawr neb o honynt yn medru ei ddywedyd *allan* yn *groew*, yn *arafaidd* ac yn *gywir*, (air yn air fel y mae yn y *Llyfr*) ſef yn y *cyfryw* fôdd ac y bo gynnes eu clywed, ac y bo gobaith iddynt Hwy eu *hunain* ei gofio, a dal *ſulw* arno, a dyfod i'w *ddeall* ac i fod yn *well* Criſt'nogion erddo. Dymma ddiffyg mawr: Je bai cywilyddus yw hwn ymma, ac yn peri mwy o niwed a cholled nac y feddylir, mewn amryw foddion.

IV. Henwau

IV. Henwau a Threfn Llyfrau'r HEN DESTAMENT a'r NEWYDD (a'r modd y cwttogir hwynt,) a rhifedi *Pennodau* pob Llyfr.——Cymmwys i bob Yſcolhaig fod yn medru y Daflen ymma yn rhigl ar ei dafod-leferydd, môdd yn gallo droi yn hylaw at unrhyw Bennod neu adnod o'r Yſgrythyr lân.—Edrychwch y 6 d. o'r 39 Erthyclau Crefydd.

Llyfrau'r HEN DESTAMENT.

	Pen.		Pen.
Geneſis ——	Gen. 50	Pregethwr, neu Eccleſiaſtes	
Exodus ——	Ex. 40	Preg. neu Eccles.	12
Leviticus ——	Lev. 27	Canaid Solomon	Can. 8
Numeri ——	Num. 36	Eſay —— ——	Eſ. 66
Deuteronomium	Deut. 34	Jeremi ——	Jer. 52
Joſhua ——	Jos. 24	Galarnad Jeremi	Galarn. 5
Barnwyr ——	Barn. 21	Ezekiel ——	Ezek. 48
Ruth —— ——	4	Daniel ——	Dan. 12
I Samuel ——	1 Sam. 31	Hoſea ——	Hoſ. 14
II Samuel —	2 Sam. 24	Joel —— ——	3
I Brenhinoedd	1 Bren. 22	Amos ——	Am. 9
II Brenhinoedd	2 Bren. 25	Obadiah ——	Obad. 1
I Cronicl —	1 Cron. 29	Jonah —— ——	4
II Cronicl —	2 Cron. 36	Micah ——	Mic. 7
Ezra ——	Ezr. 10	Nahum ——	Nah. 3
Nehemiah ——	Neh. 13	Habaccuc ——	Hab. 3
Eſther ——	Eſth. 10	Zephaniah ——	Zeph. 3
Job —— ——	42	Haggai ——	Hag. 2
Pſalmau ——	Pſal. 150	Zechariah —	Zech. 14
Diarhebion —	Diar. 31	Malachi ——	Mal. 4

Y Llyfrau a elwir *Apocrypha*.

	Pen.		Pen.
I Eſdras ——	1 Eſd. 9	Tobit ——	Tob. 14
II Eſdras ——	2 Eſd. 16	Judeth —— ——	16

	Pen.
Y rhan arall o Lyfr Eſther	6
Doethineb Solomon Doeth.	19
Eccleſiaſticus Ecclus.	51
Baruch ac Epiſtol Jeremi	6
Cân y Tri Llangc.	
Hiſtori Suſanna.	
Hiſtori Bel a'r Ddraig.	
Gweddi Manaſſes.	
I Maccabeaid 1 Macc.	16
II Maccabeaid 2 Macc.	15

Llyfrau'r TESTAMENT NEWYDD

	Pen.
Sanct Matthew Matt.	28
St. Marc	16
St. Luc	24
St. Joan	21
Actâu'r Apoſtolion Act.	28
Epiſtol St. Paul at y Rhufeiniad. Rhuf.	16
I at y Corinthiaid 1 Cor.	16
II at y Corinthiaid 2 Cor.	13
At y Galatiaid Gal.	6
At yr Epheſiaid Ephes.	6
At y Philippiaid Phil.	4
At y Coloſſiaid Col.	4
I at y Theſſaloniaid 1 Theſſ.	5
II at y Theſſaloniaid 2 Theſſ.	3
I at Timotheus 1 Tim.	6
II at Timotheus 2. Tim.	4
At Titus Tit.	3
At Philemon	1
At yr Hebræaid Heb.	13
Epiſtol Jago Jago	5
Epiſtol 1 Pedr 1 Pedr	5
II Epiſtol Pedr 2 Pedr	3
I Epiſtol Joan 1 Joan	5
II. Epiſtol Joan 2 Joan	1
III Epiſtol Joan 3 Joan	1
Epiſtol Judas Jud.	1
Datcuddiad Joan Datc	22

V. Ynghylch DUWIOLDEB.

Gwir Ddoethineb ac Uchel-fraint a Dedwyddwch *Dyn*, cyſtal ai rwymedig *Ddyled* ef, yw gwaſanaethu DUW bob amſer, mewn Enaid a Chorph, *mewn Yſpryd a Gwirionedd*, yn ol rheol ei Sanctaidd AIR ef,—mewn Gobaith *gyſſurus* o'i anrhaethol Gariad a'i Drugaredd Ef tros *byth* trwy ac er mwyn JESU GRIST.——Ni leſhâa ac ni thyccia dim oll a wnelom neu a feddom neu a *ddyſcom* ni Bechaduríaid, heb râd a bendith DDUW ar yr unrhyw;——

Gan

Gan hynny bydded i *bob* Perchen-Enaid o honom ymgais a'i *Ras* Ef yn *benna'* dim yn waſtadol, trwy wir dduwioldeb a *Gweddi* daer ddiffuant,—rhag i'r Byd a'r Cnawd a'r Cythrael gael *gwall* arnom, a'n maglu fwyfwy mewn pechod, a'n dwyn i gyflwr di-ras damnedig.

Y *Boreu* cyntaf dywed, *Mi a orweddais ac a gyſcais ac a ddeffrôais ; canys yr Arglwydd am Cynhaliodd*, Pſ. 3. 5.—*Yn foreu, Arglwydd, y clywi fy llef ; yn foreu y cyfeiriaf fy ngweddi attat, ac yr edrychaf i fynu*, Pſ. 5. 3.——Yna dôs ar dy liniau, ac offrwm yn Aberth boreuol i DDUW y cyfryw *goleſtau* a gweddiau da ac a *ddyſcaiſt*, heb un amſer eſceuluſo GWEDDI YR ARGLWYDD.— Ond rhag na's *meddi* 'r un arall, arfera y rhai canlynol.

" O Arglwydd nefol Dad, Hollalluog a thrag'wy-
" ddol DDUW, yr hwn a'm cedwaiſt yn ddiangol
" hyd ddechreu'r dydd *Heddyw*, amdiffyn fi ynddo
" a'th gadarn allu ; a chaniattâ na ſyrthiwyf y dydd
" hwn mewn *un Pechod*, ac nad elwyf mewn *neb*
" rhyw berygl ; eithr bod fy *holl* weithredoedd wedi eu
" trefnu a'u llywio wrth dy Lywodraeth, i *wneuthur*
" yn waſtad y peth ſydd *gyfiawn* yn dy Olwg *di*,
" trwy JESU GRIST ein Harglwydd. *Amen.*

O ARGLWYDD Graſuſaf, yr wyt unig Roddwr pob angenrheidiau a bendithion ar les Enaid a Chorph, gweithia ynof wir *ddiolchgarwch* am yr unrhyw : Dyro imi ſynwyr i wneud iawn ddeunydd o foddion *Grâs* ac o'r AMSER gwerthfawr a ganiatteir imi *ymma*, yn ymbarottoi erbyn awr *Angeu* a dydd y *Farn*.—Planna ynof wir *Ffydd*, *Gobaith* buredig a *Chariad* di-ragrith, a *phob* meddyliau graſol a rhinweddau *da*.—Gwna fi yn athriſt am fy mhechodau,—yn ofnus rhag dy ddigio mwyach,—yn oſtyngedig dan dy Geryddon,—yn awyddus i'th Sanctaidd *Air*,—yn wir-dduwiolſryd yn dy waſanaeth,—ac yn ofalus am *bob* rhan o'm Dyledſwydd ; modd y gallwyf *ymhob* peth ymddwyn fel y gweddai i GRISTION o Ddyn, a ſy'n ymdrech am dy

nawdd a'th *Gariad* Di *ymma*, *ac* yn nheyrnas Nefoedd trwy JESU GRIST ein Jachawdwr. *Amen.*

Y *Nôs* cyn myned i'th wely, edrych pa fôdd y treuliaiſt y Diwrnod a aeth heibio,—ac ymgais a nawdd a thrugaredd DDUW trwy *Hunan*-ymholiad manwl a dwys Edifeirwch am dy bechodau oll, a *llawn* fryd ar wellhâu dy fuchedd o hyn allan, trwy ei râs ef.

" O ARGLWYDD, *Ceidwad Iſrael*, cadw ac ym-
" ddiffyn *fi* dy *wâs* anheilwng rhag pob perygl ac
" enbydrwydd y nôs *hon*. Gwna imi feddwl yn waſtad
" am yr amſer y gorweddwyf yn y *llwch*;——ac o
" herwydd na's gwn na'r dydd na'r *awr* y *daw* fy
" Arglwydd, caniatta imi Râs i fod *bob* amſer yn *ba-*
" *rod*, fel *na* byddwyf *byw* yn y fath Gyflwr, ac y bo
" arnaf ofn *marw* ynddo;—ond pa un bynnag a wnel-
" wyf a'i byw ai marw, bod o honof yn fyw *ac* yn
" farw yn eiddo *ti*, trwy JESU GRIST fy Mhrynnwr
" a'm Dadleuwr, *Amen.*

Mewn Heddwch y gorweddaf ac yr hunaf, canys ti Arglwydd yn unig a wnei imi drigo mewn diogelwch, Pſ. 4. 8.

I'th law y gorchymynnaf fy Yſpryd; gwaredaiſt fi o Arglwydd Dduw y gwirionedd, Pſ. 31. 5.

Bydded i'th Wely ddwyn dy *Fedd* ar gôf; a phared dy gyfodiad o hono iti feddwl am yr *Adgyfodiad.*

Wrth i Ddyn wneud dibaid Arfer a chydwybod o *ddechreu* a *diweddu pob* diwrnod yn y modd yma gida DUW,—fe a wreiddia Duwioldeb yn ei *galon* ac a gynnydda yno fwyfwy, ac a wna iddo rodio yn *ofn yr Arglwydd* AR HYD Y DYDD.

VI. Ynghylch GRAS-BWYD &c.

YN NUW yr ym *ni* a'i *holl* Greaduriaid yn *byw*, yn *Symmud* ac yn *bod*:—*Efe* yn unig a *ddichon* ein cadw a'n cynnal ni oll:---*Efe* oi drugaredd ſy'n trefnu

trefnu ini luniaeth ac *iechyd* hefyd i'w gymmeryd, a *phob* bendith arall a fwynheir gennym mewn enaid a chorph: y mae'r Gwirioneddau hyn mor eglur, na's meiddia *neb* ei gwadu: Gan hynny gwaeth nag *Iddew*, ie nag *Anifail* y maes yw'r Pechadur brwnt *an*niolchgar *na* ddywed RAS-BWYD, (a hynny *nid* yn *yſcafn*, eithr mewn *difrifwch* a modd addas i Griſt'nogion) — yr hwn, trwy ollwng DUW yn *ango'*, ſy'n *pechu* yn yr hyn *oll* wnelo yn waſtadol.---*Rhuf.* 1. 21, 18--32.

Gras *cyn* Bwyd.

" Pa un bynnag a'i *bwyta* a'i *yfed*, ai beth *bynnag* " a wneloch, medd St. *Paul*, gwnewch *bob* peth er " Gogoniant i DDUW, *Amen*; poed felly y gwnelom. " ——1 Cor. 10. 31.

Un arall *cyn* Bwyd.

O Arglwydd DDUW, tynn ymmaith y Felldith drom a ddygodd *Pechod* ar y Byd i *gyd*. (Gen. 3. 17.) Bendithia dy roddion hyn. Dôd i Ras i'w cymmeryd yn gymhedrol a diolchgar, trwy ein Harglwydd JESU GRIST. *Amen.*

Un arall *cyn* Bwyd.

" Yr JESU GRIST (yr hwn ar ei ſwpper di- " waethaf, a'i rhoes ei hun a'i Gorph i'w groeſhoelio " droſom, ai waed i'w dywallt dros ein pechodau) " a'n bendithio *ni a'n* Bwyd, *Amen.*

Diolch ar *ôl* Bwyd.

" I Arglwydd y Gogoniant a'r Gallu, yr hwn a'n " creodd ni, ac a'n cadwodd ni, ac a'n porthodd ni " (ar hyn o amſer) y byddo'r moliant a'r diolch yr " awr hon ac yn dragywydd, *Amen.*

Un arall ar *ôl* Bwyd.

Am y mwyniant cyſſurus yma o'n Bara beunyddiol ac am *bob* mwyniant arall a ganiadhâodd DUW ini, moliannwn ef ar air a gweithred, *Amen.*

DUW a gadwo'r *Eglwys* a'r *Brenin*, ac a drefno i ni Heddwch, Gwirionedd a Thrugaredd yn GHRIST JESU, *Amen.*

Un arall ar *ôl* Bwyd.

Yr Arglwydd Goruchaf, yr hwn a drefnodd i ni ymborth *Gorphorol* i'n cynnal *ymma* megis dros *funud* awr; a drefno fara'r *bywyd* didrangc i'n *Heneidiau*, ac a wnelo i ni ei wasanaethu yn *gywir* a'i *garu* Ef *byth* am yr unrhyw, trwy JESU GRIST. *Amen.*

VII. Ynghylch ADDOLIANT EGLWYSIG &c.

'RYM i'w gyfrif yn Drugaredd a Dedwyddwch *mawr* fod *Glan Eglwys* CRIST a'i *wir Grefydd* Ef yn gwbl-sefydledig yn ein Plith,---a bod rhydd-did a chennad a chroesaw i ni *oll* eu proffessu a'u caru a'u dilyn yn *ddi*-rwystr ac yn ddi-*erlid*,—a'n bod ni ein *hunain* gwedi cael ein corphori i'r unrhyw trwy *Fedydd* a meithriniad *Crist'nogol*. Dang-hoswn ninneu ein *diolchgarwch* am hyn *ymhob* môdd a thrwy *gadw'r Eglwys* yn gyfannedd ar oriau *Gweddi*, yn enwedig ar ddiwrnod y *Fendith*, sef Dydd yr ARGLWYDD (*heblaw* cynnal y Duwioldeb cartrefol a berthyn i'r *Teulu* a'r *Ystafell*) drwy *uno'n* drefnus gica'r *Gweinidog* a'r *Gymnulleidfa* Grist'nogol yn eu gwaith bendigedig, ac *un* galon ac un *genau*,—ac wrth ein Hymddygiad *addas* defosionol yn y Lle sanctaidd hwnnw, a gyssegrwyd i wasanaeth a Gogoniant DUW ac Adeiladaeth ac Jechydwriaeth ei *Bobl* Ef.

Wrth ddyfod i'r *Eglwys*, dywed, *Mor hawddgar yw dy Bebyll di, o Arglwydd! Fy Enaid a hiraetha, ie a flysia am Gynteddau'r Arglwydd! Fy Nghalon a'm Cnawd a waeddant am y* DUW BYW! Ps. 84. 1, 2.—*Mor Ofnadwy yw'r Lle hwn! nid oes yma onid Ty i* DDUW, *a dymma Borth y Nefoedd!* Gen. 28. 17. Gwel Ps. 15. 1—5. --- 73. 27, 28.---89. 7.—95. 6.

Ar ol dy *Bader*, gweddia'n ddwys yn y modd *yma*: —*O Arglwydd Goruchaf, yr hwn wyt yn llenwi Nef a daear*

a daear a'th Ogoniant,—llanw fy nghalon edifeiriol i a'r cyfryw ddifrifwch a duwioldeb, ac a weddai i'th Addoliant DI *yn y lle ſanctaidd ymma; modd yr offrymwyf i Ti aberth gymmeradwy yng Hymmundeb dy Eglwys, er moliant i'th Enw bendigedig a chyſſur mawr ac adeiladaeth i'm Henaid, trwy ac er mwyn ein Dadleuwr trugarogcaf,* JESU GRIST, *Amen.*

Cyn ymadael a'r *Eglwys*, dywed,—*O* DDUW, *yr hwn a roddaiſt imi Ras i weddio a gwrando,--dyro imi* Fuchedd *gyſattebol: Tydi, yr hwn a roddaiſt y* GAIR, *dod y* Cynnyrch *hefyd, fel nad elwyf oddiyma heb dy Rad a'th* Fendith *i'm canlyn: Maddeu fy niffygion ac amherffeithrwydd fy ngwaith: Derbyn fy addoliant a'm gwaſanaeth,* nid *er fy mwyn* I, *ond yn unig er mwyn perffaith Ufudddod a theilyngdod a dibaid effeithiol Gyfryngiad* JESU GRIST, *Amen.*

VIII. Ynghylch YSCOLION CYMRAEG &c.

AMCENIR y Llyfran yma er lles a gwaſanaeth i'r YSCOLION CYMRAEG a waſcerir yn awr trwy *Gymru*; ac ni's medraf lai na d'weud gair *da* o'u tu,—gan farnu eu bod yn weithred-enaid ac yn Eluſen-waith *rhagorol*,—yn waſanethgar i Ddibennion y *Wir Grefydd*,—yn gynnorthwyol i *Eglwys Loegr*, (tra b'ont tan reolaeth yr *Eglwyſwyr Plwyfol*) ac yn amlhâu *Darllenwyr* y GAIR a'i *Wneuthurwyr* hefyd.

Rhaid i bawb gyfaddef fod DYSG yn beth lleſol a dymunol i *Enaid* Dyn,—fod budd a phleſer *mawr* i Ddyn i'w cael wrth ddarllen Llyfrau *da*, a bod yn gweled ei Ddyledſwydd ai Lygaid ei *Hun*,—fod *Gwybodaeth* (o Grefydd yn enwedig) yn rhagori ar *An*wybodaeth, cymmaint ac y mae *Goleuni* yn rhagori ar *dywyllwch*,--- ac am hynny mai Gwaith *da* canmoladwy

moladwy yw meithrin *Plant* yn Ofn ac Athrawiaeth yr ARGLWYDD, --- gan eu dyſcu i *Ddarllen* a d'weud eu *Catechiſm*, a'i ddeall hefyd, a gwybod eu Dyledſwydd tuac at DDUW a Dyn, -- a'u cynnefino i ymarfer a *Gweddiau* da *Hwyr* a *Boreu*, -- ac i gadw'r *Eglwys* yn ofalus, ac i'w *hymddwyn* eu hunain yno (ie ag ym*hob* man ac ar *bob* achos) fel *Chriſt'nogion*; --- a bod Hyn yn cymhwyſo Pobl i wneud Gwaſanaeth *cywirach* i DDUW a Dyn, ac i fod yn fwy bucheddol a chydwybodus ac yn well eu haraith a'u Hymddygiad ymhob môdd, ymhob *Oedran*, ac ymhob *cyflwr* a Galwedigaeth: — A chan fod *Dyled* anhepcor ar *bob* Rhieni a Meichiau-Bedydd a Perchenteuluoedd i *ddyſcu* hyn oll yn ofalus i'r ſawl ſydd dan eu Siars a'u Baner, a gweled fod eu buchedd a'u Hymarweddiad yn *gyfattebol*, (Dihar. 22. 6. Ephes. 6. 4. Deut. 6. 5, 6, 7, 20. Gen. 18. 19.) Da y dylent *ddiolch* i'r *Yſcolion Cymraeg* am yſcafnhâu'r baich, —am wneud iddynt gyſtal Cymmwynas ie *yn rhôdd ac yn rhâd*, ſef am *gynnyg* y fath law gynnorthwyol tuac at wellhâad eu *Plant* a'u *gweinidogion*, ie a Nhwy eu *Hunain* hefyd.--- Nid yw Dyn *heb addyſc* a meithriniad *crefyddol* fawr amgen na llwdn aſyn wyllt, *Job* 11, 12,---ie *gwaeth* na hynny yn rhy aml, — yn greadur afry[illegible]og anghynnes, -- di-rol a di-ras,-- yn wradwydd ac yn dorriad calon i'w *Berthynas*, -- yn *elyn* noeth iw *les* ac i'w *Enaid* ei Hun, ---yn druanaf Creadur drwy'r byd (mewn ſynnied yſprydol,)——yn blentyn i Ddiafol ac yn ddwbl-Etifedd Damnedigaeth.

Y mae *Anwybodaeth wirfodd* o Air ac Ewyllys Duw yn bechod *marwol* damnedig, (*Hoſ.* 4. 1, 6. *Joan* St. 3. 19.) ac yn arwain i bob Pechod arall, *Matt.* 22. 29. *Rhuf.* 1. 21, 28—32;— am hynny bydded i Chwi wneud *deunydd* addas o bob *moddion* Gras a Goleuni: Derbyniwch hwynt yn ddiolchgar, ac uchelbriſiwch hwynt pe b'ai ond rhag ofn *dial* am eu hefceuluſo, neu yn hyttrach er mwyn y mawr-lles a wnant i'ch Enaidiau.——Eithr cofiwch ynh rôdd *na* lwydda

dim

dim gwaith o'r eiddoch' chwi na'ch Plant na neb arall, heb ddygn-weddio am *rad* Duw arno; ac na wna'r addyſg oreu *heb* Dduwioldeb ond magu ymchwydd ffôl, a chwanegu at *Bechod* a chyfrif ei Pherchennog. Am hynny dylid cymmeryd gofal *mawr* i gynnefino *Plant* yn *gynnar* iawn a *Gweddiau da* ac a'r *Yſgrythyr lân*, 2 *Tim.* 3. 15, — a gwneud iddynt ddyſcu oreu y gellir o bob un o'r ddau (eithr bob yn ychydig) ar eu tafod-leferydd, --i bereiddio eu calonnau tyner ac ofn a chariad Duw: Ac fel y bo haws iddynt *ddeall* eu Dyledſwydd, rhaid mynnu iddynt ryw ſyrr Eglurhaad da o'r *Catechiſm.*

Gweddi i *Feiſtr-Yſcol.*

O Arglwydd goruchaf, yr hwn wyt unig Roddwr pob Gras a daioni,--- dyro i *mi* Ewyllys a Gallu i wneuthur *daioni* yn fy nghenedl, trwy gyflawni fy *ſwydd* yn gydwybodus, er eitha' lleſhaad ir ſawl ſydd tan fy ſiars, trwy hyfforddiant a chyngor a *ſiampl dda.* Dod fendith a chynnyrch i *bod* Yſcolion, ynha rai y cynhelir gwir wybodaeth, duwioldeb a daioni, ac yn enwedig i'r *Eluſen*-yſcolion; a bendithia'r ſawl ſy'n eu maentumio: Cadw hwynt rhag pob ffals ddyſceidiaeth, 'piniwn annuwiol a *Schiſm:* Caniatta fod iddynt chwanegu beunydd at wir Aelodau ffrwythlon dy *Eglwys* ſefydledig, --- a'u cymhwyſo i dderbyn gwell Adeiladaeth oddiwrth *Bregethiad* y Gair a gweinidogaeth yr *Eglwyſwyr*,---er mwyfwy cynnydd i *wybodaeth grefyddol* a *rhinwedd dda* yn ein Plith: A hyn a erfyniaf er Gogoniant i *Ti*, ac iechydwriaeth i'th *Bobl*, trwy ac er mwyn Jesu Grist, *Amen. Pſ.* 34. 11. *Jago* 1. 17. Pen. 5. 20. Jer. 9. 23, 24.

Gweddi i *Blentyn-Yſcol.*

Arglwydd *trugarog*, yr hwn a addewaiſt roi *doethineb* i'r ſawl a *ofynno* gennyt; llwydda fy ngwaith *i* yn ceiſio *Addyſg* Criſt'nogol: gwna fi yn gwbl-awyddus iddo,—yn wir-ddiolchgar am dano, ac yn *well Criſtion* erddo tra byddwyf *byw.* Goleua fy

Enaid

Enaid i'th adnabod *Ti*, o DDUW, ac i'm hadnabod fy *hun*: Pâr imi ddeall mor dywyll a *thruan* o bechadur ydwyf, *heb* lewyrch dy *Air* a'th *Râs* Di; a gwna imi *brifio'r* unrhyw uwchlaw pob tryſſor daearol. Bendithia fy *Rhieni* a'm *Hathrawon* a *phawb* oll; a chaniatta ini, yn hên ac yn ieuangc, fod yn *wir* ddiſcyblion i'r ATHRO MAWR bendigedig a ddeſcynnodd o'r Nef, i ddyſcu i *ni* y *ffordd* yno; ſef ein Jachawdwr JESU GRIST, *Amen*. Datc 3. 17. *Preg.* xii. 1. *Diar.* 4. 1---16. 16. *Jago* 1. 5. JOAN 17. 3.

Chwennychwn yn fawr y medrei *Pawb* o honoch, fy Nhyd-wladwyr, ddarllen *rhyw* Jaith neu gilydd, ac yn enwedig Jaith y *wlâd*, ſef yr hen FRUTANIAITH odidog, —yr hon oedd

Jaith Gynt *pob* mann, Llann a Llys,
A Gwyr ENWOG yr YNYS;
Jaith nerthog wrthiog ARTHUR;
Jaith *ddi*lediaith *berffaith* bûr;

Ond yn *awr* y mae yn cael gormod o gam, ſef o anglod a diyſtyrwch trwy ddim ond y *balchder* brwnt a llwyr *an*wybodaeth o'i haeddiant. Cywilydd ein *Gwlad* ydyw, bod cynnifer o'r *Cymru*, a fedrant Jeithoedd *eraill*, *heb* fedru darllen (na braidd *ſiarad*) Jaith eu *Mammau*: Eithr hawdd iddynt *ddyſcu* hynny etto, os gwiw ganddynt roi eu *bryd* ar y peth: Ac nid anhawdd i'r *Cymro an*llythyrennog o unrhyw oedran cymhedrol, ddyſcu *darllen* ei iaith ei *hun* ar *fyrr* o amſer (os bydd ganddo ond ſerch ac *awydd* i'r Gwaith) gan *ryw* un or *Teilu*, a fo yn *medru* ar Lyfr. A ſiwr ni neccâ neb ei Gymmydog o'r fath yſcafn Gymmwynas ddigoſt.—Eithr os na bydd *neb* o fewn y Ty yn *medru* darllen, bai erchyll yw hynny: ni wiw diſgwyl clywed *gweddiau* teuluaidd na Gair yr Arglwydd *yno*. Dyled y Pen-teulu yw edrych am gyflawni'r Diffyg yn di-oed rhag cywilydd, trwy fynnu mewn *rhyw* fodd *ddyſcu* darllen *Cymraeg*,—naill ai iddo ei *hun* neu i'w wraig neu i'w blentyn neu i'w weinidog,—yn enwedig os ydyw ef yn perchen BIBL euſus,—fel y caffer Adeiladaeth a chyſſur wrth *Ymarfer* ac ê, yn lle barnedigaeth a *dial* am ei eſceuluſo ai ddiyſtyru. Y mae addyſc

da

da yn dda *ymhob* Jaith: ond mwya' *lleſol* ydyw yn yr iaith honno, y bo mwya nifer ô'r *Teulu* yn ei *deall*: Je a goreu ar les y Plentyn ei *hun* gan amla' yw cael Athrawiaeth yn iaith ei *Fam*; gan mai honno ſy' *hawſa'* ganddo o lawer ei dyſcu, a thebygcaf i lynu yn ei *Gôf* ac i wneud iddo waſanaeth a phleſer lawer tra bo byw yn y byd,—pan fo'r *Saeſonaeg* (er dâed ydyw) yn bur anhawdd i Gymro ei *dyſcu* yn rhigl ac yn drefnus, *ac* yn bur anhawdd iddo ei chofio *debyg* i gywir; a *chwedi*'r cwbl yn bur *ddiles* gan amla' ir *Teulu* Gartref: Ac er gwiried yw hyn i gyd, etto ni thycci a dim *ond* y hi (ſef yr Enw o honi yn unig) gan lawer *Cymro tlawd* i'w Blentyn;—ac ni wiw gan ormod o'r cyfryw gymmaint a *derbyn* Addyſc yr Yscolion Cymraeg iw Plant, (chwaethach bod yn *ddiolchgar* am y fath Gymmwynas werthfawr,) er y cynnygir ef iddynt yn *rhôdd* ac yn rhâd,—ie ac nas medrant Hwythau mor *fforddio* iddynt ddim Addyſc *arall*;—a naill ai ni *fedrant*, neu o leia' nis *gwnant* mo'u dyſcu eu *hunain*. Ai nid bai brwnt ac Angrhefydd a balchder cywilydus yw hyn ymma, meddwch *chwi*? Ai nid ydynt yn *hyn* yn eu dangos eu hunain mor ddireſwm a'u Hanifeiliaid? Ai nid bod yn *ddi*-ddarbodus dros eu *Plant*, —ie bod yn *Elynnion* iddynt, a pheryglu eu Heneidiau o *eiſieu* Addyſc Griſt'nogol mewn *amſer*, a *diyſtyru* Gwybodaeth, a dewis y Tywyllwch o *flaen* y Goleuni, (*Job* 21. 14, 15, 19, 20.)—ai nid *dyna*'r hyn y gelwch chwi yr Ymddygiad *hyll* ymma? — Gwae i'r ſawl a ſydd *euog* o hono, e'u geni erioed! *Matt* 18. 6. 1 *Tim*. 5. 8. *Marc* 10. 14.

N. B. Hyd yn *hyn* y mae'r Gwaith ymma wedi ei amcanu yn *bennaf* i Blant-Yscol. Ond gan eu bod *Hwy* (wrth ddechreu dyſcu) mor chwannog i ddiwyno a rhwygo pob Llyfr a roir *gyntaf* o'u blaen; am hynny, er mwyn *achub* y rhan *ganlynol* o'r Llyfran ymma rhagddynt, gellwch ei *wahanu* oddiwrth y llall yn *ddi*-niwed: Ac felly, erbyn ail-wnio pob rhan ar ei phen ei *hun*, bydd yn fath ar *ddan* Lyfr,—ſef un i'r *Plentyn*, a'r llall i'w *Rieni*:——a da, meddant, yw *rhannu'n gyſiawn*.

Chwedl yn haeddu ein *ſulw* ni ydyw, fod yr Jaith *Gymraeg* yn rhagori ymhell ar y *Saeſonaeg* ac Jeithoedd *eraill* yn y *tri* Phriodoldeb canlynol, — y rhai ydynt Berffeithrwydd odiaeth, — yn llwybreiddio *Darllenniad* yr unrhyw yn ddirfawr, — ac o *eiſieu* pa rai y mae Jeithoedd eraill yn dyryſu ac yn dottio Plant-Yſcol dros hir o amſer.

1. Yn yr Jaith *Gymraeg* y mae pob Llythyren yn cadw ei ſwn ei *hun*, neu'n glynu wrth yr *un* ſwn bob amſer yn ddi-gyfnewid, — oddigerth y llythyren *Y*: Ac nid yw honno yn newid ei ſwn ond unwaith, yn y modd y crybwyllwyd euſus.

2. Y mae *pob* Llythyren ymhob Gair i'w *pharablu*; h. y. Y mae'r Geiriau i'w hadrodd a'u darllen yn gyfa', yn union-attebob i'w treſn a'u Hargraphiad *cywir* yn y Llyfr o'ch blaen.

3. Y mae Pwys neu *Godiad y llais* yn perthyn yn ddiball ir Sillaf diwaetha' *onid un*, — oddigerth yn unig pan fyddo ffiorch-gappen yn mynnu ſymmud yr unrhyw ar y Sillaf diwaethaf.

Er cariad ar Jaith fy Ngwlad, ni's medraf lai yn hyn o fann na chrybwyll a cheryddu *un* bai ac anghywirdeb hyll (allan o laweroedd o'r cyfryw) a ſydd wedi myned yn gyffredin iawn mewn Llyfrau *Cymraeg*, — ſef terfynu Gair neu *Ferf* a'r Sillaf, *iff*. — e. g. *gwas'naethiff* yn lle *gweſnith*; *periff* yn lle *pair*; *ceriff* yn lle *câr*, &c; yr hyn ſy'n gwrthuno'r Jaith yn drwm, ac nid yw beth i'w arferu mewn modd yn y byd.

IX. GODIDOWGRWYDD yr YSGRYTHYR LAN; ac amryw REOLAU neu Hyfforddiadau, perthynol i *iawn* DDARLLENNIAD yr unrhyw.—1749.

GAIR DUW ei hun (tragywyddol Ffynnon pob Doethineb, perffeithrwydd ſanctaidd a Dedwyddwch) a Chennadwri enwedigol oddiwtho Ef yw'r YSCRYTHYR LAN neu'r BIBL, 2 *Tim.* 3. 16. *Act.* 13. 26, a *Brenin* yr holl Lyfrau da eraill trwy'r Byd; —y rhai nid ydynt ond ufudd Swyddogion *dano* Ef. Y mae DUW o'i drugaredd yn ein *galw* a'n gwahodd oddiwrth *bechod* ac ynfydrwydd i *Sanctaiddrwydd* a Dedwyddwch;—y mae yn *llefaru* wrth ei wael Greaduriaid ac yn eu dyſcu hwynt yn ei Sanctaidd AIR; — (a *gwae'r* neb a wrthyd ymwrando; --- *ni* wrandewir ei *Weddi* Ef, pan ſo *caethaf* a chyfyngaf ar ei *Enaid*, *Diar.* 1. 24—33;) y mae yn ei yſpyſu ei HUN ini a'i *Briodoliaethau* Gogoneddus a'i *Wrthiau* tramawr a'i *Raglunïaeth* anchwiliadwy a'i aneirif *Ryfeddodau* i Feibion Dynion;---y mae yn datcuddio ini *bob* Gwirionedd pwyſſawr ac addyſc angenrheidiol i'n Hiechydwriaeth,---ac yn cynnyg ini bob annogaeth rymmus a chymmorth a Goleuni, perthynol i'r unrhyw,—ſel trwy fod yn Bobl iddo Ef, ſef yn Griſt'nogion *da* ymma, y byddom *ddedwydd* gidag Ef tros *Byth.* Y mae'r BIBL yn rhoi ini lawn Ddangoſiad o Ewyllys DUW a dyledſwydd *Dyn*,---yn dyſcu ini iawn Farn ymhob peth,---yn ein ſicrhau mai *gwagedd o wagedd yw'r cwbl* o fewn y Byd yma, *ond* CREFYDD yn unig, *Eccles.* 12. 8, 13, 14. 1 *Tim.* 4, 8. Pen. 6. 6, 7. *Jer.* 9. 23, 24. — mai Dyna'r *un peth*

angenrheidiol,

angenrheidiol, Luc 10. 42, wrth yr hwn y mae'n gobaith o Drugaredd a'n cyflwr dros *byth* yn ymddibynnu, — fod yr Angylion yn *fawr* eu llawenydd am *un* Pechadur o honom a edifarhâo, *Luc* 15. 7, 10, — a bod *un Enaid* Dyn yn werthfawroccach na'r holl Fyd, *Matt.* 16. 26,---ac mor atcas ac echryslon a melldigedig o beth yw PECHOD, *Jer.* 2. 19. *Rhuf.* 5. 12.---6. 21, ac mor *chwerwon* yw e'i *Ffrwythau* ef, er melysed yr ymddengus am y trô, (gan ei fod yn Fam *pob* drwg arall, — yn Elyniaeth wrthryfelgar yn erbyn Brenin *nêf*, — yn eitha' *Ammarch* i'r cyfiawn Ddeddfwr Goruchaf, sef i DDUW eiddigus sanctteiddiolaf,—yn halogi'r *Enaid*, ac yn ei amdwyo dros byth bythoedd,) *Deut.* 28. 15—68. *Matt.* 25. 41, — a maint yw ein *Perigl* ni o ddial a damnedigaeth or achos, *Rhuf.* 7. 24. *Luc.* 13. 5, --- ac am hynny y dylai *Pechod* fod mor *ffiaidd* gennym, na's medrom oddef e'i glywed na'i weled mewn *Arall*, chwaethach ynom ein *Hunain*, heb ddygn anesmwythdra a *gofid* calon, Ps. 97. 10. Ps. 119. 136; ac y dylem ddewis *pob* anffortun a cholled o'i flaen Ef, sef o flaen *digio* DUW trwy *bechu* i'w erbyn Ef.—Y mae *Gair* y Gwirionedd yn ein dysgu mai llwyr *Elynnion* yr ENAID ydyw'r *Byd*, y *Cnawd* a'r *Cythrael*; yn erbyn pa rai a'u temptasiwnau aneirif y rhaid ini wilied a gweddio ac ymdrechu'n egniol a milwrio'n wastadol hyd angeu tan faner CRIST ein Brenin, trwy effeithiol gynnorthwy yr YSPRYD GLAN, *Tit.* 2. 11—15. 2 *Cor.* 12. 9, 10.---Y mae yn rhoi ini lawn Yspysrwydd ynghylch *Creadigaeth* Dyn ar ddelw DUW mewn *Sanctteiddrwydd*,---a'i *Gwymp* erchyll trwy *Bechod* i *Gaethiwed* Ysprydol, ie i Glefyd *marwol* ac i gyflwr *aflan* tosturus, (yr hwn yw cyflwr *pawb* o honom wrth NATUR) *Epheſ.* 2. 1—11,---a'r modd rhyfeddol o'i *Adferiad* Ef i stat o *Râs* a MABWYSIAD, trwy ryglyddus WAED a *pherffaith Gyfiawnderau* JESU GRIST yr *Jachawdwr*:

wr : Felly y mae'r GAIR yn yn ein dwyn *allan* o Dywyllwch a chyſcod Angeu tragwyddol,--yn cynnyg CRIST ei HUN ini a'i holl Gariad a'i Ddoniau nefol a Rhagorfreintiau ei EGLWYS a'i GYFAMMOD Gwerthfawr o RAS,--ac yn trefnu ini *Ffydd* a *Gobaith* gyſſurus drwyddo EF ; *Rhuf.* 8. 32. Y mae yn dangos ini beth *oeddym*, beth *ydym*, a pheth a *fyddwn* dros byth,---gan drefnu ini eglur wybodaeth o DDUW ac o honom ein *Hunain*, a rhoi ini lawn ſiccrwydd ynghylch pethau tramawr *anweledig*, megis Dydd y *Farn* a *Nef* ac *Uffern*, neu wobrau a choſpedigaethau anfeidrol anherfynol,—ac o'r *unig* ffordd i *ni* allu ennill y Naill a gochel y Llall, ſef trwy JESU GRIST,---yr hwn yw'r Ffordd a'r Gwirionedd a'r Bywyd,---yr Hwn yw ein Heddwch a'n Cyfiawnder a'n Sancteiddrwydd ni ; ein Meichiau a'n Prynnwr a'n Meddygenaid a'n Dadleuwr, a'n *Barnwr* ni oll,---a'r Hwn, ar air, yw SWM a SYLWEDD yr YSGRYTHYRAU. --- Y BIBL yw Colofn y *Ffydd*, Gair y *Bywyd* trag'wyddol, yr Hâd *byw*, Cleddyf yr *Yſpryd*, ſylfaen y Gwirionedd,---Arfogaeth y Criſtion, a'i Dryſordy,--Ffynnon Adeiladaeth, a Phen-gelyn pob *Pechod* a drygioni, — Meddyginiaeth yr Enaid, — a *Mam* Sancteiddrwydd ac Adgenhedliad Dyn ar Ddelw DUW,—ac a *amcanwyd* yn ddiammeu i fod yn *eitha'* lleſhaad a bendith i Ddynol-Ryw, ac yn arwydd *hynod* o ffafr a thrugarogrwydd y GORUCHAF ; *Pſ.* 147. 19, 20. *Amos* 8. 8 ; fel y deellwch wrth Synnied y Gair, EFENGYL, yr hwn ſy'n arwyddoccâu NEWYDD DA : Y mae yn llefaru yn ein Hiaith ein *Hunain*, yn yr hon i'n ganed ni, fawrion weithredoedd DUW, *Act.* 2. 6, 11,---yn goſod *Bywyd* ac *angeu*, *bendith* a *melldith*, *addewidion* gogoneddus a *bygythion* arſwydus, ger ein bron ac o fewn ein cyrhaedd ni oll : ac oni ddichon *hynny* ddeffro Byd ſwrth pechadurus i ymgeiſio a *Grâs* a Thrugaredd yn ddi-oed, colledig fydd yn ddi-rwymedi, *Luc* 13. 5. Pen. 16. 31. *Deut.*

30. 19.---Y mae'r BIBL yn eglur-ddangos ini mai DUW ſydd *od yn oll*; ac nad ydym *ni* ond gwael Drueiniaid annedwydd heb ei nawdd a'i Fendith EF, ---mai ei Rôdd a'i eiddo EF yw *pob* dawn a daioni a feddwn neu a ddiſgwyliwn,---nad oes ini ddim dedwyddwch i'w gael *byth* onid ganddo EF yn unig, a than ammodau'r *Efengyl* dragywyddol; na chennym *neb* i roddi ein crêd a'n *hyder* arno yn ddiogel mewn *Bywyd* ac *Angeu* ond EFE yn unig,---mai *dedwydd* yw ei Weiſion EF, ſef pob *gwir* Griſt'nogion, er *truaned* yſcatfydd y byddo eu cyflwr yngolwg y *Byd*; ond *gwae* i'w Gaſeion EF eu *geni* erioed, er gwyched eu cyflwr am *dro*, *Luc* 6. 20.---26. Penn. 16. 19 ---31, --- mai'r meddiant goreu a'r diddanwch hyfrydtaf trwy'r Byd ydyw GRAS DUW a thyſtiolaeth CYDWYBOD *dda*, 2 *Cor.* 1. 12; a'r *unig Dryſſor* a'n cenlyn ni oddiymma; a *gwyn-fydd ei Berchennog!* Y BIBL yw unig REOL FFYDD a BUCHEDD i Ddynion; (a Rheol *berffaith ddigonol anghyfnewidiol* ydyw, *Pſ.* 19. 7---11. 2 *Tim.* 3. 16, 17. *Datc.* 22. 18, 19.) *wrth* yr hon yr ydym i *rodio* 'n ofalus yn y bywyd *ymma*, ac i gael ein BARNU yn y Dydd ofnadwy, *Joan* 12. 48. *Rhuf.* 2. 16.

Gwaith anhawdd yw mawrhâu y GAIR bendigedig yn ol ei *Haeddiant*, *Pſ.* 138. 2, a rhifo *pob* lleſhaad a chymmwynas werthfawr a ſydd i bob Dyn i'w cael oddiwrtho; yn yr hwn y mae *Grym* a Rhinwedd enwedigol, *Heb.* 4. 12. *Luc.* 16. 31, i *ddeffro'r* Gydwybod,---i ddinoethi ac argyoeddi *Pechod*,--- i orchfygu *Temptaſiwn*, --- i droi'r *Galon*, --- i farweiddio a gwradwyddo *trachwant*, --- i buro ein meddyliau llygredig, a'u derchafu at y pethau ſydd *uchod*,---i ryddhâu a diddyfnu ein ſerch oddiwrth y *Byd* a phechod, a'i ſefydlu ar DDUW yn unig,--- i oleuo a bywhâu a diddanu'r *Enaid*,---i'w *alw* yn effeithiol, ---i'w wneud yn ddwys-ſynniol oi drueni *mawr*

wrth

wrth *natur*, ac mor *ddedwydd* yw iddo gael cynnyg o Ollyngdod ac Jechyd trwy JESU GRIST, *Phil.* 3. 8. *Rhuf.* 6. 21, 22. 1 *Joan* 1. 7,—i weithio ynddo (trwy y nefol *Râd*) wir *Ffydd* fywiol, ac yn ddilynol *pob* Grafau Yſprydol eraill a *phob* Rhinwedd dda. Je *nefa'* peth at gael gweled DUW ei hun, yw cael ei AIR EF yn *weledig* o'n blaen i'n harwain atto EF, er mawr ac anherfynol ddiddanwch ini. Gan hynny pa mor *ddiolchgar* y dylâem Ni y CYMRU fod am i Oreugwyr *Eglwys Loegr* doſturio wrth ein hangen mawr am Lyfr GAIR yr ARGLWYDD, a pharottoi ini (ſef i Berchen-teuluoedd) gymmaint a 15000 o *Fiblau* rhagorol yn ein Hiaith ein *Hunain*, a hynny am lai na *Hanner* Prîs. * Ac achos *da* ſydd i

 ddiſgwyl

* N B. Y mae *Caeadu* cynnifer o Lyfrau yn waith mawr anniben, ac yn gofyn Amſer nid ychydig: A Dyna'r hyn ſy'n peri eu bod yn dylifo in Plith mor *arafaidd*: Eu Prifiau yw 4*s* 4*c* y Llyfr, a *chlaſpiau* arno,—4*s* hebddynt,—a 5*s* am un wedi ei rwymo yn *ddau* Lyfr,—a dim yn *rhagor* dan Eſcus yn y byd: 'Rydys wedi ordeinio eu gwaſgaru trwy *Gymru* yn y cyfryw ſodd cywir-deg, na bo i neb rhyw Deulu (na Phlwyf) gael mwy na'i Ran, er colledu Arall a ſo mewn *Eiſieu* o'r Fendith ymma,—ac y bo i Deuluoedd *Crefyddol* gael y Blaenoriaeth.—Gwybyddwch *ymbellach*, ſod *eufus* ym mryd y GYMDEITHAS barchedig yn *Llundain* (ſef yr un *er helaethu Gwybodaeth Griſt'nogol*) a gyflwynodd ini yr Argraphiad *drefnus* yma o'r BIBL *Cymraeg*, roi un *arall* allan cyn gynted ac y bo môdd yn yr un Jaith ragorol, ac *befyd* Argraphiad newydd o'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* ac o'r TESTAMENT NEWYDD: Gweddiwn ninneu am Râd DUW ar eu Gwaith ac am Rwydd-deb i'w Hamcanion duwiol: A diſgwyliwn yn amyneddgar weled mwy Llawndra ar fyrder o FIBLAU bendigedig yn *Ghymru*, nac a welwyd *erioed*,—a gobeithiwn y gellir cymhwyſo atti eiriau 'r Prophwydi, ſef *Hab.* 2. 14. *Jer* 31. 33, 34. Felly er *lleied* Nifer o Lyfrau crefyddol a ſydd i'w cael yn awr am arian yn *Ghymraeg*, (a'r rhan fwya' o'r *rheini* yn abl diles ac yn anolygus, *rhwng* Trwſgledd ac Anghywirdeb e'u *Hiaith*, a'u Hargraphiad *ddrwg*, a thywyllni y *Papur*, a'r Llythyrennau *gweilion*, yn enwedig y rhai a ddelont o'r *Y Mwythig*,—a rhai o honynt yn *Gyfeiliornus* hefyd, —heblaw eu bod *oll* yn *ddrudion*,) etto ſe wna Helaethrwydd o FIBLAU cywir, *Jawn* helaeth am y Diffygion a'r Beiau cywilyddus ymma.

Ac

ddiſgwyl *cyſnewid mawr* er *gwell* yn GHYMRU, a FFRWYTH *helaeth* oddiwrthynt yn ein Plith yn ol *amlder* yr HAD, a *chynnydd da* ymhob Duwioldeb Gwybodaeth a Graſlonrwydd, er *ychwaneg* o Ogoniant i DDUW, ac o *râd* a bendith i'n *Gwlâd*, ac o ddidrangc Ddedwyddwch i'n *Heneidiau*;—os amgen, *gwae* i ni eu gweled erioed.—*O na byddech ddoethion, na ddeallech hyn, nad yſtyriech eich Diwedd.*---O na byddei ini oll *Râs* i dreulio'r byrr Fywyd *gwael* ymma i *gyd* yn ymboeni ac yn ymdrechu am y gwir Fywyd didrangc, ſef am ddedwyddol DRAGYWYDDOLDEB; gan gofio nad ydym ond Dieithriaid a *Phererinion* ar y Ddaear;--- môdd y gallo pawb wybod a gweled wrth ein *bucheddau* mai CRIST'NOGION a Phlant y *Goleuni* a Gweiſion DUW ydym, ac Etifeddion Teyrnas NEF, wedi ein *hail-eni* i'r unrhyw drwy anllygredig Hâd y GAIR, 1 *Petr* 1. 3, 4, 23.---Mi a chyennychwn yn fawr fod i Chwi *oll*, fy *Nghyd-wladwyr Criſt'nogol*, wneud y *Deunydd* a ddylid o'r Fendith werthfawr ymma: Chwennychwn hefyd allu bod yn *gynnorthwyol* i chwi yn hyn o Ran, gan *ddangos* i chwi pa fôdd y mae mwya' budd a lleſhaad i'w gael oddiwrth y GAIR, a rhybuddio 'r annyſcedig a'r anwaſtad rhag ei *gam*-arferu a'i *wyrdroi* i'w diniſtr eu Hunain.--- Er *mwyn* hynny yr wyf yn ufudd-gynnyg i chwi yr ychydig *Reolau* neu Hyfforddiadau canlynol ynghylch *iawn* Ddarllenniad yr Unrhyw.

Ac O na byddai i bawb a gyfranno o'r BIBLAU hyn, eu dangos eu Hunain megis yn *deilwng* o'r unrhyw, drwy oſod i fynu a chynnal DUWIOLDEB TEULUAIDD neu WEDDIAU BEUNYDDIOL yn eu TEULUOEDD, a thrwy *ragori* ar Bobl *eraill* yn nrhiniad eu Plant a'u Tylwyth, ac ymhob Graſlonrwydd a Gweithredoedd *da!*

I. Wrth

I. Wrth fyned i ddarllen yr *Yſcrythyr lân*, Gweddiwch ar DDUW drefnu ei *Râd* ar eich gwaith, a rhywiogi a pharottoi eich meddwl a'ch calon i'w deall a'i chroeſawu yn y *cyfryw* fôdd, ac y prifio i *Chwi* yn *Had byw* ac yn *Arogl Bywyd*,---Megis mai trwy Yſprydoliaeth y GLAN YSPRYD yr *yſcrifenwyd* y GAIR, 2 *Tim.* 3. 16. 2 *Petr* 1. 21,---felly trwy ei *Râs* Ef yn unig yn *cyd*-weitho ag ef yn ein *Calonnau*, y mae ini ddiſgwyl lleſhaad ac Adeiladaeth a chynnydd a Diddanwch oddiwrtho: Ac *heb* hynny, nis byddi ddim gwell er dy *holl* Ddarllenniad. --- Pan gymmeri'r BIBL mewn llaw, dywed, --- *Arglwydd, datcuddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th Gyfraith Di*:—*Ti*, ARGLWYDD, *wyt fendigedig*; *dyſg i mi dy ddeddfau*:—Bydded dy AIR *yn lluſern i'm traed ac yn llewyrch i'm Llwybr*:—*Cyfarwydda fy nghamrau yn dy* AIR, *ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf*. Pſ. 119. 12, 18, 105, 133.

II. Cymmerwch y BIBL mewn llaw yn *barchedig* ac mewn ofn yr ARGLWYDD,---ac *nid* fel rhyw Lyfr *cyffredin*. Cofiwch GAIR *Pwy* ydyw,--*nid* Gair *Dyn*, 1 Theſſ. 2. 13, na Gair *Angel*, eithr GAIR y DUW BYW ydyw, 2 Tim. 3. 16,--GAIR y DRINDOD addoladwy (ſef ein *Creawdwr*, ein *Prynnwr* a'n *Sancteiddiwr*) a CHYFRAITH y BRENIN MAWR Goruchaf;— wrth yr hon i'n *bernir* ni oll yn y Dydd diwaetha' yn *gadwedig* neu *golledig* dros byth;---ac am hynny y mae yn gofyn *eitha'* Parchedigaeth ac *ufudd-dod* gan *bob* Perchen-Enaid,--- *Eſay* 66. 2. *Jaga* 4. 6, 7, 8.

III. Darllennwch y BIBL mewn *Symlrwydd* calon, a *di*-ragrithrwydd,---heb ddim bwriad arall gennych', ond ceiſio *Gwybodaeth bywiol o'r Gwirionedd* a dyſcu *beth* yw Ewyllys DUW,—*beth* y mae EF yn ei ofyn gennych',

gennych',---pa'r *un* yw Ffordd y BYWYD,--a pha *fodd* a than ba *Ammodau* y mae CRIST a *Grâs* a Thrugaredd i'w *cael*;—gan lwyr-ymroi i *gredu'r* GAIR yn ddiyſcog ar Dyſtiolaeth DUW'r *Gwirionedd*, a'i groeſawu i'ch Calon, ac *ymoſtwng* iddo ymhob dim *heb* na dadl na rhagfarn nac amheuaeth,—er mor *wrthwynebol* y byddo i wâg ddoethineb y *Byd* a Dychymmygion *dynol* a ſynnied y *Cnawd* pechadurus. 1 *Cor.* 2. 14. ---3. 19. 2 *Cor.* 10. 5. *Jago* 1. 21.

IV. Darllennwch y GAIR yn *ddyfal* ac yn *arafaidd*, a meddwl *dwys* yſtyriol,—gan ddal manwl *Sulw* arno, a cheiſio deall ei *Synnied* ymhob pwngc, oblegyd ei Bwyſawrogrwydd anrhaethol a'i *ddirfawr* Berthynas i'ch *Enaid* a'ch iechydwriaeth *Chwi*. --- Y mae'r neb a ddarllenno'r BIBL mewn yſcafnder meddwl a diſtâwch,—yn unig er difyrru'r amſer heibio, neu er mwyn canmoliaeth *ddynol* neu ryw ddiben *gau* o'r fath, --- ac yn enwedig y neb a feiddio *gellwair* a'r GAIR, *Marc* 8. 38,—yn diyſtyru DUW (ei Awdwr a'i Berchennog) ac yn ei amharchu Ef megis i'w Wyneb, er *gwae* echryſlon iddo e'i Hun.

V. Cymhwyſwch yr hyn a ddarllennoch (pa un bynnag a'i argyoeddiad, a'i rhybudd, a'i bygythion, a'i Gorchymmyn ac Eſampl &c,) yn *bwyllog* ac yn *oſtyngedig* attoch eich HUNAN a'ch Cydwybod, ac at gyflwr eich Enaid a'ch Buchedd eich HUN, (ac *nid* at feiau a bucheddau eich Cymmydogion, *Rhuf.* 2. 1,) yr *un* fath a phe b'aſai'r Geiriau wedi eu traethu (trwy Lais o'r *Nef* neu Gennad *bwrpaſol* oddiyno) wrthych Chwi yn UNIG, ac yn bendant,——ac *nid* wrth Neb *arall*: Canys y mae eich Adgyweiriad a'ch Cynnydd Yſprydol a'ch Jechydwriaeth *Chwi* yn crogi wrth hynny. *Gal.* 6. 4. 2 *Cor.* 13. 5.

VI. Ymrowch

VI. Ymrowch a llwyr-fryd calon i *wneuthur* yn ôl yr hyn a ddarllennoch, ac i lunio eich buchedd a'ch ymarweddiad yn gydwybodûs wrth *union* Reol y GAIR; *Jago* 1. 22:---canys *ni* wasanaetha *Gwybodaeth* Gresyddol, heb Ymarfer gyfattebol, *ond* i chwanegu baich a damnedigaeth Dyn, *Luc.* 12. 47. 2 *Petr* 2. 21. *Rhuf.* 1. 18.--Am hynny pa *bechod* bynnag i'ch argyoeddir o hono gan yr unrhyw, *brysiwch* i'w adael *heibio* a'i ochelyd fel *gwenwyn* Sarph a Mam *melldith* a damnedigaeth;---a pha *Ddyledswydd* bynnag a orchymmyn y GAIR i chwi, edrychwch yn ofalus at ei *chyflawni* trwy *Râs* DUW, er gwaetha' pob gwendid ac escus a rhwystr a profedigaeth.--- Cymmerwch *Esampl* oddiwrth Uniondeb *Noah*, ffyddlondeb *Abraham*, Llarieidd-dra *Moses*, Ammynedd *Job*, Duwioldeb *Dafydd*, Zêl *Josiah* &c, ac yn enwedig oddiwrth amryw *Rasau* a nefol rinweddau CRIST a'i *Apostolion*, i gopio ar ol yr unrhyw yn eich Ymarweddiad eich *Hunân: Rhuf*, 15. 4, 5. *Jago*, 5. 10. 1 *Petr* 2. 22, 21.--1 *Cor.* 10. 11.--- *Deall da sy gan y rhai a* WNANT *ei Orchymmynnion* Ef. *Ps.* 111. 10. *Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os* GWNEWCH *hwynt*, *Joan* 13. 17. (Gwybyddwch fod *pob* rhyw *bechod* gwirfodd, yn enwedig *buchedd* bechadurus, tra y *parhâoch* i'w dilyn, yn *rywyllu* eich dealldwriaeth yn erchyll, ac yn *gwyrdroi* 'ch serchiadau, fel na's gellwch na deall na hoffi'r GAIR, na chlywed *blas* arno na dim diddanwch ynddo, gan fod y Drygioni yn *ysgar* rhyngoch a DUW, ac yn attal ei *Râs* Ef oddiwrthych: Am hynny, pe ba'i ond er mwyn cynnyddu eich *Synwyr* a'ch gwybodaeth a'ch mwyniant o'r LLYFR PENNAF YN Y BYD ymadewch a *Phechod* yn llwyr, ac ymrowch yn hollawl i *wneuthur* cystal a *darllen* y GAIR. 1 *Cor.* 2. 14. *Joan* 7. 17) Cofiwch ymhellach, mai *nid* i fedru *ymddoethi* a phoffio ac ymresymmu 'n ddoctoraidd ynghylch *Crefydd* a Phyngciau *dyrys* a dyfnderoedd yr *Ysgrythyr lân*, y mae

i chwi

i chwi *ddarllen* yr unrhyw,---*ond* i ddyſcu *Goſtyngeiddrwydd* a Chywirdeb calon a *phob* rhinwedd *dda* a dyledſwydd lafurus.

VII. Wrth ddarllen yr *Yſcrythyr lan*, os mynnwch weled y *Cyſſondeb* a'r gynghanedd dda a ſydd rhwng pob cwrr o'r unrhyw; bydded i chwi *gyd*-farnu y naill fann a'r llall, 1 *Cor.* 2. 13, a gwneud deunydd o'r lleoedd *Egluraf* i agor ac amlygu meddwl y rhai dyſnion ac *anhawdd* eu deall:---Yn wir y mae *rhai* mannau o'r BIBL, fel Eigion y *Môr*, cyn *ddyfned* a'u bod hyd yn hyn yſcatfydd allan o gyrhaedd Deall *Dyn*, (megis rhyw fannau o *Ganiad* Solomon ac o Lyfr y *Datcuddiad*, ac amryw Brophwydoliaethau eraill ynghylch pethau a ſydd etto i *ddyfod* &c,) y rhai ſy' yn gweſnith o leiaf i ddaroſtwng ein Conſêt a'n balchder, trwy ein gwneud yn ſynniol o wendid a *byrdra* ein Dealldwriaeth, a'n llenwi a gwylder a pharchedig *Ofn* rhag gwyrdroi'r GAIR i'n diniſtr ein Hunain: DEUT. 29. 29.---2 Petr 3. 16, 17. Pſ. 131. 1, 2. Pſ. 139. 6.——Eithr y mae pob Pwngc *ſylfaenol* o'r GAIR a phob Gwirionedd angenrhaid i'n Hiechydwriaeth yn *eglur* ddigon: Gan hynny dewiſwch ymgynnefino ar mannau *egluraf* o'r Yſchrythyr lân, megis y *Pedwar Efengylwr* a *Pſalmau Dafydd*, a'r rhannau hynny o'r *Epiſtolau* a'r *Efengylau* a oſododd yr Eglwys i'w darllen ar bob *Sul* a *Gwyl*.---(Hawdd fyddei rhoi i chwi Hyfforddiadau mwy *pennodol*; ond y gofynnent ormod o le *ymma*: Eithr braidd y rhaid i'r Darllennwr didwyll *goſtyngedig* wrthynt; yr hwn, fel y *Wenynen*, a gaſcl fêl o *bob* cwrr: ac am y rhai chwyddedig rhyfygus, ni wiw cynnyg hyfforddiad iddynt *hwy* o gwbl, oddigerth gan eu Rhywogaeth eu *Hunain*.)--Ac am y lleoedd *anhawdd* y digwyddo i chwi daro wrthynt, ymgynghorwch yn eu cylch a *Gweinidog* pwyllus a dyſcedig,---*nid* o ran manyldra beius, nac a *drwg*-fwriad dadleugar conſetus,---*ond* a

meddylfryd

meddylfryd *cywir*, ſef yn unig er ceiſio lleſhaad yſprydol ac Adeiladaeth, mewn modd *weddus* oſtyngedig. *Mal.* 2. 7.

VIII. Byddwch mor awyddus i AIR yr ARGLWYDD ac i'ch *Bara* beunyddiol, gan mai lluniaeth yr *Enaid* yw *didwyll Laeth y* GAIR, 1 *Petr* 2. 2. *Deut.* 32. 47. *Jer.* 15. 16. *Matt.* 4. 4. *Job* 23. 12:--Gan hynny mynnwch ddarllen (neu glywed) *rhyw* ran o hono EF BEUNYDD yn anad llyfr yn y Byd, tra byddoch fyw,---a hynny er gwaetha' pob rhwyſtr ac eſcus gwag,---ac yn enwedig ar y *Sabboth* a phob Dyddiau *Gwylion*, (a dygwch eich BIBL fel cyfaill *anwyl* Parchedig, *gida* chwi i'r Eglwys;) --- Gan wybod fod hynny yn *arwydd* dda o *Râs* ynoch,---yn fôdd enwedigol o *gynnyddu'* r unrhyw,---yn orchwyl *difyr* cyſtal a lleſol,---yn waith cymmeradwy gan Nefol AWDWR y GAIR,---yn ennill ei Fôdd ai Fendith EF;---ie ac mai eich rhwymedig *Ddyled* yw gwneuthur hynny o ran *Cydwybod*.---Y mae CRIST ei hun yn gorchymmyn ini, (i BAWB o honom, *Marc* 13. 37. 1 *Tim.* 2. 4; gan y *perthyn* GAIR y BYWYD i *bob* Perchen-Enaid fel ei *gilydd*) *chwilio'r Yſcrythyrau*, Jo. 5. 39,---a Phobl *Berea* yn cael eu canmol am wneud felly *beunydd*, *Act.* 17. 11. Ac medd *Joan* St. *Dedwydd yw'r hwn ſy'n darllen* &c, Datc. 1. 3. ---Matt. 13. 17.--Da y dylem *ymbyfrydu* yn y GAIR, *Pſ.* 119. 16, gan mai oddiwrth DDUW y daeth, ac mai atto Ef y mae yn *arwain*,—ſef trwy *ddyſcu* i Ni bob Gwirionedd, a *gorchymmyn* ini bob Sancteiddrwydd, ac *addaw* ini bob Grâs a Dedwyddwch. Rheitia' peth gan hynny, ie a buddiola' peth i *Bob* Dyn yn ei Dŷ, yw GAIR DUW, yr hwn ſy' yn Oleuni i'r Deillion, yn Arweiniwr i'r Anghyfarwydd, ac yn ymborth nefol i'r Newynog,—yn Feddiginiaeth ac *iechyd* i'r Enaid *clwyfus*, --- yn *Fywyd* yſprydol i'r rhai *meirwon* mewn camwedd a Phechod, --- yr

hwn

hwn a wna y *Flawd* yn oludog mewn *Grâs*, 1 *Tim.* 6. 6, ac a yſcafnhâ faich ei dlodi a'i helbulon daearol, gan drefnu cyſſur gwaſtadol i'w galon, wrth ei ddarllen a'i yſtyried,— ie a lwydda *Ddâ-byd* a Gorchwylion y Darllennwr crefyddol; gan dynnu *Rhâd* y GORUCHAF a'i Fendith arnynt, *Matt.* 6. 33. *Pſ.* 37. 4. *Joſh.* 1. 8. —Na oſſied undyn byw ddadleu ar anwiredd, na's medr hepcor *dim amſer* nac *unrhyw* gwrr o'r diwrnod (nac o hir ddyddiau *Hâf* na hir noſweithiau *Gaiaf*) i'r gwaith anhepcor ymma o ddarllen ei FIBL, gan y *medr* fforddio ennyd i *bob* gwaith arall,—ie yſywaeth i bob gwagedd a ffolineb a Phechod. Ond y GALON ſydd allan o gywair ac yn anhueddol i'r Gwaith duwiol yma, gan ei bod yn rhwym ynghadwynau'r BYD a PHECHOD; a dyna ſwm a ſylwedd pob *Eſcus* drwg.— *Joan* 6. 27. *Luc* 10. 41, 42.

IX. MYFYRIWCH ar yr hyn a ddarllennoch', fel y bo iddo lynu yn eich *Côf*, a *gwreiddio*'n ddyfn yn eich Calon, a dwyn *Ffrwyth* toreithiog yn eich Buchedd; 1 *Tim.* 4. 15. *Hebr.* 2. 1. *Joſ.* 1. 8. *Pſ.* 1. 2.— 119. 11. *Col.* 3. 16. *Deut.* 6. 6, 7. --- *Tryſſor* gwerthfawr yw *Hâd* y GAIR; am hynny *ceduch* Ef yn ofalus a chleddwch Ef yn y Galon trwy *Fyfyrdod*,—rhag i *Satan* ei *ddwyn*, neu i ddyryſni y *Byd* a *Gofalon* a *thwyll cyfoeth* ei *dagu*, neu fod iddo *ddiffrwytho* a gwywo ynoch drwy *wall*-ymgeledd.—Nid oes wybod pa un *fwyaf*, a'i lleſhaad a'i hawſder y Ddyledſwydd ymma: --- Gellwch *fyfyrio* uwchben eich Gorchwyl; --- nid anhaws i chwi *weithio*, er bod eich Calon yn llawn Duwioldeb:—Pan fo'ch *Llaw* yn dal yr aradr, geill eich *Meddyliau* fod yn rhedeg ar y pethau ſydd *uchod*. Ac fe wna *Myfyrdod* o'r fath yma i chwi anferthol Lês, drwy eich gwared rhag meddyliau drwg, a magu meddylfryd *duwiol* ynoch' bob amſer, a rhoi i chwi *flâs* ac awydd i *fwyfwy* o Addyſc yſprydol, a'ch gwneud yn *hyddyſg* yn yr

Yſgrythyrau,

Yſgrythyrau, ac yn *abl* i roi *Rheſwm* da am eich Ffydd a'r Gobaith ſy' ynoch, ac i ddiſtewi gwag ſiaradwyr a *Hudolwyr* cyfrwys-ddrwg, ac i'ch amddiffyn rhag pob Temptaſiwn a Gelyn-Enaid, ac i'ch cymhwyſo a'ch tueddu i arferu y cyfryw Ymadrodd wrth bawb ac a *fyddo da i adeiladu'n fuddiol, fel y pero Ras i'r Gwrandawyr* : 1 *Petr* 3. 15. *Matt.* 12. 34. *Ephes.* 4. 29. *Pſ.* 119. 93. Cofiwch fod y Neb a ſy'n dibriſio neu'n *eſceuluſo* ei FIBL, neu'n ei gadw y rhan amla' i fod yn ddiles, tan *Glô*,—yn rhy debyg i'r Dyn *colledig* a guddiodd neu a gladdodd ei DALENT yn y *Ddaear*, *Matt.* 25. 24—31, --- ei fod yn rhoi *Canwyll* yr ARGLWYDD megis dan *Leſtr*,—a bod y BIBLAU a gaffo'r Cyfryw rai oll fel *Gemmau* wedi eu bwrw o ſlaen *Môch*; (fel y gwelir yn rhy eglur ac yn rhy aml wrth y drefn *ddrwg* halogedig a ſy' ar eu *Llyfrau* a'u *Bucheddau* hefyd,) --- Y rhai, er *rhatted* ydynt iddyn' yr *awr'on*, y gerfydd iddynt dalu yn *hallt* am danynt yn nydd y CYFRIF ofnadwy. —YR HWN A DDIRMYGO'R GAIR, A DDIFETHIR, *Diar.* 13. 13.—JOAN 12. 48.

Hyd yn *hyn* y ceiſiais ddangos i chwi y Modd y mae i Ddyn ddiſgwyl Lleſhaad iddo ei HUN oddiwrth Ddarllenniad y GAIR :—Yn awr dangoſaf y Ffordd addas i chwi gynnyg a chyfrannu budd ac Adeiladaeth i *Eraill* oddiwrtho, er *Bendith* i chwi eich *Hunan*.— 1 *Tim.* 2. 4. *Diar.* 12. 1. *Jago* 5. 19, 20. *Diar.* 11. 30.

X. Darllennwch *allan* (yn araf, yn drefnus ac yn groyw, --- eithr *heb* na bloedd nac oernad anghynnes nac *Yſtumiau* gwirionllyd,) os bydd neb ger llaw i'ch *clywed*; --- a byddwch barod ar bob cyfle i wneud hynny o waith cardodol ac o *Gymmwynas* Yſprydol i'r Sawl a *ôfynno* gennych neu a *wrandawo* arnoch, (yn

enwedig i'r *clâf* a'r gorweiddiog,) --- gan chwennych (fel gwir Griſtion *caredig*,) i *bob* Enaid gyfrannu o ddirfawr oleuni a lleſhaad y BIBL, ſef o AIR a chariad a Thrugaredd DDUW. Y mae hyn yn *ddyledus* arnoch: a phed yſtyriech ôl a blaen, chwi ai cyfriſech yn *ddedwyddwch* mawr, fod yn *rhydd* i chwi *yneuthur* hynny, a'ch bod yn byw mewn Gwlad *Broteſtanaidd*.---Ond yn rhôdd *na chamarferwch* y Rhydd-did a'r Braint duwiol yma: *Na* throwch mo'nynt yn *eſcus* i ddiyſtyru 'r *Eglwys*, --- i *ddifenwi* ei Gweinidogion,--- i wanhâu a thorri *undeb* a Chymdeithas Griſt'nogol,---ac i fod yn gochl malais a chonſêt ac *Ympiniwn* drwg ac Yſtryw ragrithiol.---Edrychwch pa fodd y cynhygia neb o honoch chwi, fy mrodyr LLYG a'r Bobl Gyffredin, (na chawſoch ond ychydig addyſg eich *Hunain*) ymdderchafu i fod yn *Bregethwyr* ac *Athrawon*, tan eſcus rhyfygus o'ch Sancteiddrwydd a'ch Yſprydoliaeth enwedigol, --- ac i *eſponio'r* GAIR ar eich amcan, --- rhag eich cael trwy ryw *wag* Siarad anaddas a geiriau chwyddedig, yn *gwradwyddo* 'r unrhyw, --- yn gwneud *cam* a'r Gwirionedd, 2 Petr 3. 16,--- yn dottlo a dyryſu a *phendroni* y rhai Gweiniaid,--- ac yn arwain *Eraill* hefyd yn ddiarwybod i geuffos *Cyfeiliorni* a Cham-hyder ddrwg ryfygus *neu* Anobaith ddychrynllyd. --- Ymhellach, y mae yn rhydd i chwi, ie ac yn ddyledus ar bawb o honoch *ddwyn allan o ddaionus dryſſor ei galon bethau da*, a chyfrannu i'w Gymmydog y rhybudd, yr Argyoeddiad, y cyſſur, y cerydd, a'r Cyngor &c, a gafodd ef ei *hun* yng AIR DUW, 1 *Theſſ.* 5. 11. *Jago* 5. 19, 20,---a gwneud hynny yn y cyfryw fodd addas *buyllog* oſtyngedig, ac a fo debygcaf i *ffynnu*,---*heb* beri na thramgwydd na *Rhwyſtr* afreidiol i'ch Cyd-Griſt'nogion.

Deliwch

Deliwch Sulw yn rhodd ar GANONAU'r EGLWYS, yn enwedig 3—10; a meddyliwch am yr *ufudd-dod* cywir a fydd ddyledus i'r *Awdurdodau* Goruchel, 1 *Pet.* 2. 13—17. *Rhuf.* 13. 2; a gwnewch eich goreu i gynnal *Undeb* yr EGLWYS yn ddi-waban.

XI. Os wyt yn Perchen *Teulu*, cymmer Ofal *mawr* ar iddo fod yn Deulu i DDUW: Ac i'r diben *hwnnw* galw ef ynghyd mor aml ac y b'o môdd (o leiaf ar ol cadw *Noſwyl*, ac ar bob *Sul* a *Gwyl*,) i glywed darllen y GAIR bendigedig, er lleſhaad i bob Enaid tan dy Gronglwyd; --- gan gofio dy fod yn attebol ir ARGLWYDD am *bob* Plentyn a Gwas a Morwyn a feddi,--- ac mai *un* o'r moddion goreu tuac at achub eich Enaid eich HUN, yw gwarchod yn dda a rhag-ddarbod yn ddyfal dros eu Heneidiau *Nhwy*,--- drwy drefnu iddynt bob Addyſg Griſt'nogol a Chyngorion duwiol ac ESAMPL DDA,---a chanmol a *gwobrwyo* y rhai *da* a chrefyddol o honynt, a chymmeryd poen a gofal lawer i berſwaedio'r *lleill* i fod felly hefyd, *Jago* 5. 19, 20, ac i'w hegwyddori a'u gwreiddio yn y Ffydd,---a'u dwyn oll *gida* chwi yn gyfannedd i'r EGLWYS, a chynnal Duwioldeb *briwyddiol* a threfn dda (*Pſ.* 101. 4---8) yn eich *Teulu*. Ymrowch gida *Joſhua*, 24. 15, gan ddywedyd, *Myfi*, MI A'M TYLWYTH *a waſanaethwn yr* ARGLWYDD.---*Gen.* 18. 19.---Y mae *un* Criſtion *da* yn *fendith* ddirfawr i'r *Teulu* lle y byddo: Bu Ty *Laban* well er *Jacob*, ac un *Potiphar* er *Joſeph* dduwiol: Y mae llwyr *Ddyled* ar *bob* Dyn fod yn Athro yn ei Dy ai Deulu ei *hun*, --- ond *nid* mewn math yn y Byd a'r GYNNULLEIDFA neu Gymmanfa o Bobl wedi ymgaſclu ynghyd o *Amryw* Deuluoedd: Canys *Hynny* a berthyn yn unig i'r EGLWSWYR, a awdurdodwyd i bregethu ac Eſponio'r GAIR, ac i Fugeilio Eglwys DDUW, *Act.* 20. 28;--- BRAINT pa rai yw cynnyg Gollyngdod a *chymmod* i Bechaduriaid edifeiriol dychweledig yn enw CRIST, ac *Offeiriadu* yn y *Gynnulleidfa* griſt'nogol, 2 *Cor.* 5. 20.

Hebr. 5. 4. *Mal.* 2. 7. 1 *Cor.* 4. 1;---y rhai y mae Perchen teuluoedd i fod yn *gynnorthwyol* iddynt yn eu Gweinidogaeth, ac *nid* i beri *rhwyſtr* a thrymder ac anglod iddynt.---Ac os *digwydd* i'ch Eglwyſwr fod yn Bregethwr *gwann* neu yn Athro *eſceulus*, neu'n wr *an*fucheddol, (yr hyn na atto DUW)---etto y mae yn ddyledus arnoch, ie ac yn *lleſol* i Chwi berchi'r ORDINHAD a'r URDDAU a'r EGLWYS, (un eich Plwyf eich *hun* yn enwedig;)---a bydd eich *Siampl dda* chwi o Oſtyngeiddrwydd ac Undeb a Chariad ac Ufudd-dod yn *byn* o ran, yn fuddiol iawn i Adeiladu *Eraill*,---ie'n *fwy buddiol o lawer* na holl floedd a dadwrdd ac ymffroſt ac Edliwiaeth y Bobl *grwydraidd*, a ſy'n *diyſtyru Eglwys ac Offeiriad eu Plwyf*, — yn pentyrru iddynt eu hunain Athrawon o bell ac agos (2 Tim. 4. 3,) o ryw rywogaeth newydd, — yn torri tros y terfynau ſefydledig,---ac yn agor *adwy* lydan i ollwng i mewn i'n plith bob anrhefn hyll a gau opiniwnau aneirif a chyndynrwydd drwg ymryfaelgar a *Schiſm* ac Anghariadoldeb.

Gwybydd mai'r *Llyfr Gweddi-gyffredin* ſydd gymhwyſaf i'w arferu gennit mewn Duwioldeb *teuluaidd*: Eithr rhag na byddo yn gweſmith gan *bawb*, Y mae amryw weddiau addas i *Deulu* wedi eu chwanegu at yr Argraphiad ddiweddar o'r *Bibl.*

Cyn diweddu, cynhygiaf i chwi ddwy *Reol* yn rhagor, a berthyn yn fawr i *bob* Dyn.

XII. *Holwch* eich Cydwybod a *Bernwch* eich Buchedd eich hun BEUNYDD wrth yr hyn a wyddoch ac a ddarllennaſoch o REOL y GAIR bendigedig, (a hynny *nid* yn yſcafn, ac yn ol dull rhai yn *rhagrithio*,) i gael gweled pa *fath* Ddarllennwr ydych, a pha *fodd* yr ydych yn derbyn ac yn croeſawu'r HAD *bywiol*,--- ai *tir da ffrwythlon* yw eich *Calon* chwi, *Matt.* 13. 8, 23, ynteu *craſdir* diffrwyth yſcellog,

Heb.

Heb. 6. 7, 8. -- A ydwyt ti yn *fwy* ſynniol nac oi blaen o Atcaſtwydd *Pechod*, dy Bechod dy HUN yn enwedig, ac o ddirfawr *drueni* dy Enaid wrth *natur*, ac o anfeidrol Gariad a Thrugaredd DDUW tuac attat yn GHRIST JESU? Pa EFFAITH a gafodd ei AIR EF etto ar dy feddwl a'th calon a'th fuchedd a'th Enaid *di*? Pa beth wyt ti yn ei *wneud*, ac *i* ba le yr wyt yn myned dros *byth*? *Pa* fath *gyfrif* ſy' gennit i'w gynnyg i'th *Arglwydd* o'th *holl* feddyliau, geiriau a gweithredoedd, er's pan wyt yn *medru* pechu? --- Rhowch y cyfryw Ymofynnion a'r rhai *hyn* yn ddwys at eich Cydwybod; — a ydwyf fi yn *ceiſio* cadw a *chofio* yr hyn a ddarllennais, ac yn ſicer-amcanu bod yn *well* Criſtion erddo? A ydyw *Ffydd* ac *Edifeirwch* a'r cyfryw Arwyddion *Grás*, ar *gynnydd* ynof? A ydwyf fi, yngwrthwyneb i AIR DUW, yn fy *nghynnwys* fy hun *fyth* mewn unrhyw *Bechod* o fath yn y byd? *Beth* ydyw? *Pa* bechod a drwg-arfer a *orchfygais*, — a *pha* Rinwedd dda a Gwybodaeth iachuſol a ddyſcais trwy ddarllen y GAIR? A ydwyf fi yn *well* Dyn mewn *Gwirionedd*, er's pan *gefais* FIBL, ac y dechreuais ymgynnefino ag êf, — yn dduwiolach, — yn fwy fy *zél* a'm cariad tuac at DDUW a'i AIR a'i DDYDD a'i EGLWYS a'i SACRAMENTAU, nac o'r *blaen*, — yn ſobrach, — yn oneſtach, ---- yn fwy Eluſengar, ---- yn fwy goſtyngedig a di-abſen a diwyd a maddeugar ac addfwyn a bodlonus a geirwir a diwair a llariaidd &c, ac yn well fy *Araith*, ac yn *fwy* fy ngofal am Ogoneddu DUW ac am drugaredd i'm Henaid, nac oeddwn o'r *blaen*, megis *wythnos* neu *fis* i'r dydd *Heddyw*? --- A ydwyf fi yn deunyddio fy *Nhalentau* a moddion GRAS yn ddiwyd, ac yn ymgymhwyſo fwyfwy i fyned i blith *Angylion* Nef, trwy ymgynnefino a duwioldeb a Sancteiddrwydd? A wyf fi yn diyſtyru *pob* peth mewn cyffelybiaeth i anrhaethol Gariad

DUW yn GHRIST, ac yn barod i *wneud* a *gholli* a *dioddef* pob dim er *mwyn* yr unrhyw? Pa fâth *Ffydd* a *Gobaith* a *Chydwybod* ſydd gennyf? A ydyw eu Gweithrediad a'u *ffrwythau* yn profi eu bod yn gywir a *bywiol* a *chymmeradwy?* A ydyw fy nghaſineb i *Bechod*, a'm *cariad* i Rinwedd a daioni, a'm ZEL tuag at Jechydwriaeth fy *Mrodyr yſprydol*, yn *cynnyddu* beunydd? --- A ydwyf fi yn clywed y GAIR yn nerthol-*weithio* ynof, ac yn adnewyddu fy ngalon ar Ddelw DUW? A ydyw fy Ymarweddiad I (*beth bynnag a wnelo* eraill) yn tynnu nês-nês at union *reol* y GAIR a Phatrwm fy IACHAWDWR; a minneu yn hyderu yn unig ar ei Deilyngdod EF am *drugaredd*? A oes gennyf ſylfaen *dda* i feddwl a chredu fy môd *i* mewn cyflwr *cymmeradwy*; ac y byddwn *cadwedig*, pe gorſyddei imi *farw* cyn pen yr awr? Os amgen, ai nid wyf mewn *perygl* echryſlon *bob* awr, bob *munud*? --- 1 Joan 3. 20, 21. 2 Cor. 13. 5.

XIII. *Diweddwch* eich Darllenniad yn yr *un* modd ac y *dechreuaſoch* ef, --- ſef, a *Gweddi* am Râd a ffynniant iddo, ac am nefol *wlith yr Yſpryd* i ffrwythloni'r hyn a hauwyd yn eich Calon, --- gan ddywedyd, --- Arglwydd, trugarhâ wrthyf Bechadur *truan*, a llwydda fy ngwaith yn *ceiſio* dyſcu a deall a charu dy AIR Di, ſef GAIR Y BYWYD; --- caniattâ iddo ſod i mi yn oleuni a thryſſor a diddanwch, ac yn *bob* peth *da* i'm Henaid: Agor fy nghalon i'w groeſawu ai *gadw*'n anwyl: --- 'Scrifenna ef ar lêch fy nghalon, mi a attolygaf i Ti. Oddiwrth *galedrwydd* Calon, a *dirmyg* ar dy *Air* a'th Orchymmyn, *gwared fi, Arglwydd daionus.* --- Neu os bydd *odfa* gennyt, gweddia yn y cyfryw Eiriau a'r rhai *canlynol*,

O DAD *trugarog*, yr hwn a drefnaiſt i *mi* y cyſſur a'r dedwyddwch *mawr* o ſod yn *Perchen* Llyfr dy nefol

nefol AIR Di, --- gwna fi yn wir-*Synniol* o werth-fawrogrwydd y Braint a'r mwyniant yſprydol yma uwchlaw miloedd o aur ac arian darfodedig: Pâr i'm calon gynneſu wrtho: Gwna fi yn gwbl *ddiolch-gar* am dano mewn meddwl, gair, a gweithred, --- yn *anwyl* o hono yn waſtadol, --- ac yn *well* Criſtion erddo *beunydd*, --- fel *na* chotto yn *Dyſt* erchyll i'm herbyn rhagllaw: *Tuedda* dy was i ddarllen a gwrando dy *Gyfraith* dragwyddol mewn *ffydd* a hoffder a goſtyngeiddrwydd *mawr*. Ac er fy mwyn i a *phawb* o'th Bobl, bendithia *Weinidogion* dy Sanctaidd AIR a chyfiawnder o *Ras* i'w *ddeall* a'i oſod *allan* mewn gair a gweithred, --- i Bregethu a chymmell ac egluro'r unrhyw yn *ddyfal* ac yn *llwyddiannus*. Dôd dy Râd arno i weithio ynof fwyfwy lwyr *gaſineb* i *bob* Pechod, ac i'm cynyſgaeddu a phob gwybodaeth *iachuſol* a dawn Griſt'nogol a rhinwedd *dda*, --- modd y byddwyf oludog mewn *gras*, --- yn aelod *byw* o'th Eglwys *Filwrus* ymma, --- ac y caffwyf fy nerbyn ar fyrder i'th un *Orfoleddus* yn y Nefoedd, trwy ac er mwyn y MAB RHAD, fy *unig* IACHAWDWR, JESU GRIST. *Amen*.

Swm a ſylwedd y *Rheolau* a'r Hyfforddiadau, yw hyn *ymma*,-ſef bod i chwi, er cael Budd a Bendith oddiwrth AIR DUW, ddechreu *a* diweddu eich Darllenniad a *Gweddi* neu Ochenaid dduwiol,—ai ddarllen Ef mewn Goſtyngeiddrwydd mawr, --- a *di*-ragrithrwydd, --- a meddylfryd *dwys*, --- gan ei gymhwyſo attoch eich HUN, --- ac ymroi gwneuthur ar ei *ôl*, --- ac ymgynneſino a'r Mannau *Egluraf*, --- ac ymarfer a hynny *beunydd*, --- a *myfyrio* ar hynny, --- a darllen *allan* er lleſhaad i *Arall*, --- ac yn enwedig i'ch Teulu eich *hun*, --- a'ch *Holi* eich Hunan a'ch Buchedd wrth yr hyn a ddarllennaſoch o *Reol* y GAIR bendigedig. ---

Deliwch

Deliwch *fulw* fod y Rheolau hyn gan *mwyaf* mor addas a pherthynol i WRANDAWIAD ac i *Ddarllenniad* y GAIR; ac y byddant fuddiol a gwaſanaethgar i Chwi tuac at ddyledus Gyflawniad o'r *ddwy* Ddyledſwydd bwyſfawr ymma, os gwiw gennych' wneud *Deunydd* o honynt, trwy gynnorthwyol *Râs* DUW. *Amen.*

Eſcuſodwch *feiau'r* Llyfran hwn.

DIWEDD.